

8042-17

City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Plastro Soled

Pecyn Asesu

Fersiwn 1.4 Chwefror 2023



Cynnwys

1. Cyflwyniad	4
Canllawiau cyffredinol ar ddarparu	5
2. Canllawiau i ddysgwyr	7
Trosolwg o'r asesiad	7
Cyfarwyddiadau ar gyfer tasg Prosiect Ymarferol	8
Trafodaeth Broffesiynol	11
3. Canllawiau i'r Asesydd – Asesiad Ar-sgrin	13
Gwybodaeth Asesu: Prawf 1	14
Gwybodaeth asesu: Prawf 2	15
4. Canllawiau i'r asesydd – Prosiect Ymarferol	17
Manyleb asesu cynllunio (MAC)	18
Manyleb asesu perfformio (MAC)	19
Gofynion meini prawf crefft ychwanegol	21
Manyleb asesu gwerthuso (MAC)	22
Canllawiau ar y tasgau	23
Canllawiau cyffredinol	26
Dogfen Cynllunio Tasgau	29
Cynllun asesu	30
Ffurflenni asesu	30
Marcio a Graddio	31
5. Canllawiau'r Ganolfan – Trafodaeth Broffesiynol	33
Grid Marcio	37
Gofynion Tystiolaeth	42
6. Cyfuno graddau	44
Cyflwyno canlyniadau a chyfrifo graddau	47
Atodiadau	48
1. Prosiect Ymarferol – Perfformio – Gofynion sylfaenol o ran cynnwys asesu (MAC)	49
Grid Marcio Plastro Soled – Cynllunio MAC	50
Grid Marcio Plastro Soled – Ymarferol MAC	52
Grid Marcio Plastro Soled – Gofynion meini prawf crefft ychwanegol ymarferol	56
Grid Marcio Plastro Soled – MAC Gwerthuso	58
2. Prosiect Ymarferol - Ffurflenni cofnodi	61
3. Asesiad ar-sgrin	65
4. Ffurflenni Cofnodi'r Drafodaeth Broffesiynol	67

Gwybodaeth am y Fersiwn

Fersiwn a dyddiad cyhoeddi	Newidiadau
f1 Mehefin 2021	Y ddogfen wreiddiol
f1.1 Ionawr 2022	Deunyddiau cefnogi – diweddarwyd cyfeiriad y wefan (t32, 41)
f1.2 Mawrth 2022	Diweddarau gwybodaeth ar gyfer uned 306 ym Manyleb Asesu Prawf 2, dileu gwybodaeth fapio ychwanegol (t66)
f1.3 Medi 2022	Adran 3 Gwybodaeth asesu ar gyfer Prawf 1 a 2 wedi'i diweddarau

Fersiwn a dyddiad cyhoeddi	Newidiadau
	Diweddaru gwybodaeth ffin marc Prosiect Ymarferol (t32)
f1.4 Chwefror 2023	Gwybodaeth graddio yn adran 3 wedi'i diweddaru i amlygu y gall ffiniau graddau fod yn wahanol rhwng fersiynau

1. Cyflwyniad

Beth sydd yn y ddogfen hon?

- Meini prawf a strwythur asesu
- Tasgau a chanllawiau i ddysgwyr
- Canllawiau i'r asesydd ar asesu, tasgau a graddio

Trosolwg o'r asesiad

Ffocws yr asesiadau yw bod dysgwyr yn gallu dangos yn glir eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o gynnwys y cymhwyster.

Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu mewn nifer o ffyrdd er mwyn gallu dangos eu dysgu'n glir. Ar gyfer y cymhwyster hwn, rhaid i'r dysgwr lwyddo i gwblhau:

- Dau **Asesiad ar-sgrin** yn cynnwys ystod o gwestiynau aml-ddewis.
- **Prosiect Ymarferol** yn cynnwys tair adran lle mae angen i ddysgwyr ddangos eu sgiliau cynllunio, perfformio a gwerthuso.
- **Trafodaeth Broffesiynol** yn cynnwys un adran, gan gynnwys lle mae dysgwyr yn myfyrio ar gwblhau eu Prosiect Ymarferol.

Oherwydd natur yr asesiadau, **rhaid** cwblhau'r Prosiect Ymarferol cyn y Trafodaeth Broffesiynol.

Strwythur asesu

Asesiad	Asesiadau ar-sgrin	Prosiect Ymarferol	Trafodaeth Broffesiynol
Dull	Wedi'i osod a'i farcio'n allanol	Wedi'i osod yn fewnol, ei farcio'n fewnol, a'i ddilysu'n allanol	Wedi'i osod, ei ddilysu a'i farcio'n allanol
Allbwn	Gradd	Gradd	Gradd
Pwysoliad (cyfraniad at radd y cymhwyster)	20%	60%	20%

Canllawiau cyffredinol ar ddarparu

Cyflwyno'r asesiad i'r dysgwyr

Rhaid i'r asesydd gyflwyno pob asesiad i'r dysgwr pan ystyrir bod y dysgwr yn barod ac wedi paratoi i gwblhau'r asesiad. Rhaid i hyn ddigwydd yn dilyn cyfnod o ddysgu ac asesu ffurfiannol. Rhaid i'r asesydd roi trosolwg llawn ar y broses asesu a'r gwahanol asesiadau i'r dysgwr fel bo'r dysgwr yn gwblgllir beth yw'r daith asesu cyn dechrau ei asesiad cyntaf.

Bydd rhyddhau'r asesiad i'r dysgwr yn cadarnhau bod gan yr asesydd mewnol ffydd bod y dysgwr wedi derbyn digon o addysgu ac arweiniad i fod wedi datblygu dealltwriaeth fanwl a fydd yn rhoi cyfle iddo ymateb yn llwyddiannus i bob un o'r tasgau.

Amseru rhwng asesiadau

Dim ond ar ôl i ddysgwyr gwblhau'r Prosiect Ymarferol y gall y Drafodaeth Broffesiynol ddigwydd. Rhaid i ganolfannau drefnu i bontio'n hwylus rhwng y ddau asesiad hyn. Oherwydd bod y drafodaeth yn seiliedig ar brosiect y dysgwr, argymhellir na ddylid gadael bwlch o ddim mwy na thair wythnos rhwng pryd fydd y dysgwr wedi cwblhau'r prosiect a chynnal y Drafodaeth Broffesiynol. Rhaid trefnu Trafodaethau Proffesiynol gan ddefnyddio Walled Garden, rhaid i ddarparwyr drefnu Trafodaethau Proffesiynol mewn da bryd er mwyn gallu cyflawni'r amserlenni uchod.

Gellir cwblhau'r Asesiad ar-sgrin ar unrhyw adeg yn y broses asesu, er mai'r argymhelliad yw bod hyn yn digwydd cyn y Prosiect Ymarferol a'r Drafodaeth Broffesiynol.

Cyfle cyfartal ac amrywiaeth

Mae City and Guilds yn disgwyl y bydd gan unigolion fynediad cyfartal at yr asesiad hwn beth bynnag yw eu rhyw, statws priodasol, oed, crefydd, lliw, hil, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu anabled. Hynny yw, drwy gydymffurfio â'r gyfraith berthnasol ar gydraddoldeb.

Rhaid i ganolfannau fod â pholisi yn ei le i sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu uniongyrchol nac anuniongyrchol yn digwydd, nac o ganlyniad i bwysau gan gyrff eraill. Rhaid i'r polisi hwn fod yn berthnasol i bob canolfan loeren a dylai fod trefniadau yn eu lle i fonitro defnyddio ac effeithiolrwydd y polisi. Os na fydd cwynion am faterion anghydraddoldeb yn cael eu datrys yn foddhaol gan y ganolfan, er y bydd hynny'n annhebygol, rhaid hysbysu dysgwyr bod ganddynt hawl i apelio i City and Guilds drwy'r trefniadau a ddisgrifir yn ein Polisi Apelio.

Lefel iaith

Mae'r asesiad wedi'i fwriadu ar gyfer dysgwyr yng Nghymru. Nid prawf o ddeall Cymraeg na Saesneg ydyw. Felly, ac eithrio yn achos termau technegol sy'n briodol i bwrpas a lefel yr asesiad, rhaid i'r iaith fod ar lefel sy'n briodol i'r dysgwr. Rhaid i aseswyr hefyd ofalu i sicrhau bod y defnydd o iaith yn ystyried nad Cymraeg / Saesneg fydd iaith gyntaf neu iaith ychwanegol pob dysgwr.

Llên-ladrad

Gall eich asesydd egluro cyfarwyddiadau'r dasg a'r dulliau ar gyfer cadw gwaith ond ni all gynorthwyo yn ystod yr asesiad mewn unrhyw ffordd.

Asesiad yw hwn o'ch galluoedd, felly rhaid i'r gwaith fod yn waith i chi yn gyfan gwbl a rhaid iddo gael ei gyflawni o dan yr amodau a nodir.

Pan ganiateir gwaith ymchwil, rhaid i'ch tiwtor/asesydd allu nodi pa waith rydych chi wedi'i wneud eich hun, a beth rydych chi wedi'i ganfod o ffynonellau eraill. Felly, mae'n bwysig gwneud yn siŵr eich bod yn cydnabod pob ffynhonnell ac yn cyfeirio'n glir at unrhyw wybodaeth a gafwyd ganddynt.

Cam-ymddygiad Academaidd

Lle mae'r Asesydd yn amau cam-ymarfer gan y ganolfan/dysgwr – gan gynnwys cyd-gynllwynio neu gam-ymddygiad academaidd, rhaid riportio hyn yn unol â pholisi cam-ymarfer City and Guilds sydd ar gael ar wefan City and Guilds.

2. Canllawiau i ddysgwyr

Trosolwg o'r asesiad

Mae'n ofynnol i chi gwblhau'r asesiadau canlynol:

Asesiadau ar-sgrin

Mae **dau** Asesiad ar-sgrin i'w cwblhau, mae pob un yn cynnwys nifer o gwestiynau aml-ddewis a byddant yn asesu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth. / Os ydych chi wedi ennill y cymhwyster Dilyniant (lefel 2) mewn Plastro Soled, yna nid oes yn rhaid i chi gwblhau Prawf 1 fel rhan o'r cymhwyster hwn gan ei fod yr un prawf. Dim ond Prawf 2 y bydd angen i chi ei sefyll a'i basio. Os nad ydych chi wedi dilyn y cymhwyster Dilyniant, rhaid i chi sefyll a phasio Prawf 1 a Phrawf 2 er mwyn llwyddo i ennill y cymhwyster hwn.

Prosiect Ymarferol

Bydd y Prosiect Ymarferol yn asesu eich galluoedd yn y grefft o'ch dewis, a bydd angen i chi wneud y canlynol:

- **Cynllunio**'r gwaith y mae angen ei wneud ar gyfer y grefft o'ch dewis mewn prosiect mwy
- **Perfformio**'r tasgau ymarferol, gan ddangos eich sgiliau yn y grefft o'ch dewis
- **Gwerthuso**'r dulliau rydych chi wedi'u defnyddio i gwblhau'r prosiect ac ansawdd eich deilliannau.

Mae'r Prosiect Ymarferol hefyd wedi'i gynllunio i sicrhau bod gennych chi'r cyfle i ddangos sgiliau cyflogadwyedd ehangach, gan gynnwys:

- Cyfrifo costau ac adnoddau
- Rheoli amser
- Cynllunio'n effeithiol
- Gosod targedau personol
- Datrys problemau
- Sgiliau gwerthuso.

Bydd pob elfen o'r prosiect (cynllunio, perfformio a gwerthuso) yn cael ei marcio gan eich asesydd a bydd y prosiect yn cael ei raddio.

Trafodaeth Broffesiynol

Ar ôl cwblhau eich Prosiect Ymarferol, bydd gofyn i chi gwblhau Trafodaeth Broffesiynol. Bydd y Trafodaeth Broffesiynol yn cynnwys un rhan lle bydd gofyn i chi fyfyrio ynghylch y Prosiect Ymarferol rydych chi wedi'i gwblhau yn y drafodaeth.

Cyfarwyddiadau ar gyfer tasg Prosiect Ymarferol

Mae hwn yn asesiad ffurfiol a byddwch chi'n cael eich marcio ar sail ansawdd a chywirdeb eich perfformiad ymarferol. Felly, mae'n bwysig eich bod yn cyflawni eich gwaith i'r safon uchaf bosibl. Rhaid i chi ddangos pa mor dda yw'ch gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r grefft o'ch dewis, a sut rydych chi'n gallu defnyddio eich gwybodaeth a'ch sgiliau ynghyd i gyflawni'r tasgau.

Byddwch yn gweithio gyda'ch cyflogwr a'ch darparwr dysgu i nodi, i drafod ac i gytuno ar **ddim mwy na 4 tasg seiliedig ar waith** i ddangos tystiolaeth o'r meini prawf gofynnol a fydd yn cael eu cwblhau fel rhan o'r Prosiect Ymarferol. Bydd eich darparwr dysgu yn rhoi manylion y meini prawf y mae'n rhaid eu cyflawni fel rhan o'r cymhwyster hwn, a fydd wedyn yn sail i'r penderfyniad ynghylch nifer a graddfa'r tasgau seiliedig ar waith sydd i'w cwblhau.

Mae tair elfen i'r prosiect hwn: cynllunio, perfformio a gwerthuso.

Cynhelir asesiad y prosiect dros oddeutu 74 o oriau dysgu dan arweiniad (GLH), a rhaid i'r rhain gynnwys yr holl elfennau cynllunio, perfformio a gwerthuso fel a ganlyn:

- Tua 12 awr i gwblhau'r gwaith cynllunio ar gyfer eich tasgau ymarferol.
- Tua 50 awr i gwblhau'r tasgau ymarferol a osodwyd mewn cytundeb â'ch cyflogwr a'ch darparwr dysgu.
- Tua 12 awr i gwblhau'r gwaith gwerthuso ar gyfer eich tasgau ymarferol

Bydd gofyn i chi lunio cynllun(iau) yn dangos y dull y byddwch yn ei ddefnyddio i gwblhau'r tasgau y cytunwyd i'w cwblhau o fewn y prosiect.

Fel rhan o'r Prosiect Ymarferol, bydd gofyn i chi weithio tuag at fanyleb ar gyfer pob tasg, a osodir gan eich cyflogwr. Gall enghreifftiau o fanyleb gynnwys y canlynol, a mwy:

- Safon ryngwladol gydnabyddedig
- Cod ymarfer cydnabyddedig
- Rheoliadau a Safonau Diwydiant
- Archeb gwaith neu daflen waith
- Llawlyfr gwneuthurwr
- Safon fewnol cwmni
- Meini prawf derbyn cwsmer.

Ar ôl cwblhau'r tasgau seiliedig ar waith, bydd gofyn i chi werthuso eich gwaith.

Mae'n ofynnol i chi gwblhau tair adran yr asesiad (Cynllunio, Perfformio, Gwerthuso) yn y drefn a amlinellir isod:

Cynllunio

Rhaid i chi, eich cyflogwr a'ch asesydd gytuno ar y tasgau sydd i'w cwblhau fel rhan o'r asesiad hwn.

Ar gyfer asesiad cychwynnol bydd yn rhaid i chi lunio a chyflwyno dogfennau cynllunio ar gyfer yr holl dasgau y cytunwyd arnynt. Pwrpas yr asesiad cychwynnol yw sicrhau bod pob cynllun yn cyrraedd y trothwy i basio, a rhaid cwblhau hyn cyn ymgymryd â gweithgarwch ymarferol ar gyfer pob cynllun, fel yr amlinellir isod.

Rhaid cyflwyno tystiolaeth o'r cynllunio ar ffurf copi electronig.

Bydd hyn yn cael ei wneud mewn swyddfa, ystafell ddosbarth neu amgylchedd addas arall dan oruchwyliaeth a byddwch yn gallu cael gafael ar gyfarpar TG a deunyddiau adnoddau priodol (e.e. lluniadau cynllun, cynlluniau pensaernïol, lluniadau cynllun safle, ac ati) er mwyn i chi allu gwneud eich gwaith ymchwil. Ni fyddwch yn gallu gweld cynlluniau cyflawn y cyflogwr ar gyfer y gwaith sy'n cael ei wneud fel rhan o'r gweithgaredd asesu.

Bydd gofyn i chi gynhyrchu'r canlynol ar gyfer pob tasg y cytunwyd arni:

- rhestr adnoddau sy'n cynnwys yr offer, y deunyddiau a'r cyfarpar sydd eu hangen i gwblhau pob tasg.
- datganiad dull sy'n nodi'r dulliau gweithio a fydd yn defnyddio'r adnoddau yn y ffordd orau (gan ystyried goblygiadau cost a gwastraff o safbwynt ariannol ac amgylcheddol) a bodloni gofynion manyleb, gofynion statudol a gofynion cytundebol, gyda sail resymegol ynghylch pam mai'r dulliau a gynlluniwyd yw'r rhai mwyaf priodol.
- rhestr o'r gwaith (gydag amserlenni) – rhaid i'ch cynllun nodi pa mor hir rydych chi'n amcangyfrif y byddwch chi'n ei gymryd i gwblhau'r dasg, sut rydych chi'n bwriadu gwneud/trefnu'r gwaith ac unrhyw gerrig milltir rydych chi'n dymuno eu cyflawni (er enghraifft prif weithgareddau tasg), gan gynnwys y sail resymegol ynghylch pam mai'r drefn hon yw'r dull mwyaf priodol.
- asesiad risg a disgrifiad o'r risgiau i gyflawni gwaith yn unol â gofynion ansawdd ac amser a sut y gellid osgoi'r risgiau hyn.
- meini prawf llwyddo ar gyfer y dasg – beth fydd llwyddiant yn ei olygu ar gyfer y tasgau o safbwynt ansawdd y gwaith, y deunyddiau a ddefnyddir, ansawdd y gorffeniad.
- amlinelliad o arddulliau a dulliau cyfathrebu a ddefnyddir gydag amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys cleientiaid/cwsmeriaid, cyflogwyr, cydweithwyr, ac ati.

Bydd eich cyflogwr a/neu eich asesydd yn darparu unrhyw dempledi profforma sydd eu hangen i gefnogi gweithgarwch cynllunio (e.e. asesiad risg, datganiad dull). **Rhaid i chi gofnodi'n glir gyfanswm yr amser a dreuliwyd ar bob cynllun.**

Rhaid cyflwyno dogfennau cynllunio i'ch asesydd yn unol â'r dyddiadau y cytunwyd arnynt fel rhan o'r broses asesu/cynllunio tasgau, a bydd eich asesydd yn amlinellu'r broses hon i chi.

Rhaid i'r dogfennau cynllunio gael sgôr sy'n cyrraedd y trothwy pasio cyn cael eu defnyddio i gefnogi elfen perfformio pob tasg. Bydd eich asesydd yn rhoi gwybod i chi a yw hyn wedi'i gyflawni cyn i chi wneud unrhyw waith ar sail y cynllun a gafodd ei gyflwyno.

Os oes meini prawf llwyddo wedi cael eu pennu gan y cyflogwr neu'r cwsmer (e.e. mewn manyleb tasg neu fanyleb cwsmer) ar gyfer job sy'n cael ei chyflawni fel rhan o'r asesiad, rhaid ymgorffori'r rhain yn eich cynllun ochr yn ochr â'ch meini prawf llwyddo eich hun a'u nodi'n glir fel set y cyflogwr neu'r cwsmer.

Dim ond y cynllun ar gyfer y job fwyaf a gyflawnir fel gwaith a asesir a fydd yn cyfrannu at eich gradd gyffredinol. Ystyrir mai'r job fwyaf yw'r job lle bydd tystiolaeth o'r nifer fwyaf o feini prawf.

Yn yr achos hwn, diffinnir job fel darn mawr o waith a wneir gan sefydliad/cyflogwr/tîm/ac ati, sy'n cynnwys tasgau llai.

Perfformio

Bydd yr elfen hon o'r asesiad yn cynnwys tasgau, lle byddwch yn arddangos y sgiliau rydych wedi'u dysgu a'u hennill. Byddwch yn defnyddio'r cynllun(iau) rydych wedi'u creu ac yn cwblhau'r dasg/tasgau y cytunwyd arnynt gyda'ch cyflogwr a'ch darparwr dysgu i fodloni manyleb y cyflogwr.

Bydd yr asesydd yn cynnal ymweliadau asesu. Bydd hyn yn cynnwys arsylwi arnoch yn perfformio gwahanol gymwyseddau ar wahanol gamau yn y dasg/tasgau, trafod eich gwaith â chi (y dulliau a ddefnyddiwyd ac ati) a/neu archwilio eich gwaith gorffenedig.

Bydd aelod o staff eich cyflogwr, y bydd eich darparwr dysgu yn cytuno arno, yn cael gweithredu fel tyst arbenigol i gasglu tystiolaeth eich bod yn cwblhau elfennau o dasgau prosiect y cytunwyd arnynt. Bydd y dystiolaeth hon wedyn yn cael ei rhannu â'ch asesydd i gefnogi'r penderfyniad asesu ac ar ffurf fideos, lluniau, tystiolaeth gan dystion neu adroddiadau ysgrifenedig.

Rhaid i chi weithio'n ddiogel bob amser wrth gyflawni tasgau ymarferol a defnyddio unrhyw gyfarpar diogelu personol sy'n ofynnol.

Gwerthuso

Ar ôl cwblhau elfennau ymarferol y prosiect, bydd gofyn i chi ysgrifennu adroddiad gwerthuso sy'n myfyrio ynghylch y prosiect. Yn yr adroddiad hwn, rhaid i chi werthuso'r dulliau a ddefnyddiwyd i gwblhau'r tasgau ac ansawdd y deilliannau, gan gymharu deilliannau'r prosiect â'r cynllun y cytunwyd arno, gan gynnwys y meini prawf llwyddo roeddech chi wedi'u gosod.

Byddwch yn gwneud hyn mewn swyddfa, ystafell ddosbarth neu amgylchedd addas arall.

Rhaid i'ch gwerthusiad roi sylw i'r canlynol:

- Wnaethoch chi fodloni eich meini prawf llwyddo?
- A wnaethoch chi fodloni gofynion y dasg a nodwyd yn y fanyleb (a roddwyd gan eich cyflogwr)?
- Myfyrio ynghylch eich perfformiad eich hun – cryfderau, gwendidau, ansawdd cyffredinol allbynnau gwaith;
- Adolygu a gyflawnwyd o fewn yr amserlenni, os na wnaed hynny, pam a pha gamau y gellid bod wedi'u cymryd i osgoi hyn?
- Gwerthuso'r trosglwyddo – a oedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn glir ac a oedd yn cyflawni'r pwrpas a fwriadwyd, a gafodd y dull cyfathrebu cywir ei ddewis?

Ystyriwch hefyd fel sy'n berthnasol:

- Beth aeth yn dda?
- Beth nad oedd cystal?
- Beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol petaech yn cynnal y dasg eto? Fyddech chi'n defnyddio dull gwahanol y tro nesaf?
- Pa effaith fyddai gweithio mewn cyd-destun gwahanol wedi'i chael ar y prosiect? (e.e. gweithio mewn/ar adeilad o gyfnod gwahanol, cael mynediad at offer o gyfnod gwahanol, ac ati)
- Pa broblemau gawsoch chi? Sut wnaethoch chi oresgyn hynny?
- Pa mor dda wnaethoch chi gyfathrebu ag eraill? Wnaethoch chi feithrin cysylltiadau gweithio effeithiol?
- Beth wnaethoch chi ei ddysgu o'r prosiect?

Mae'n rhaid i chi ysgrifennu adroddiad gwerthuso sy'n myfyrio ynghylch y job fwyaf a gafodd ei gwneud fel rhan o'r prosiect. (Fel sy'n cael ei ddiffinio uchod, ystyrir mai'r job fwyaf yw'r un sy'n ceisio rhoi tystiolaeth o'r ystod ehangaf o feini prawf.)

Iechyd a diogelwch

Rhaid i chi weithio'n ddiogel bob amser. Rhaid i chi bob amser ddilyn unrhyw reoliadau a chodau ymarfer iechyd a diogelwch perthnasol.

Os bydd eich cyflogwr/tiwtor/asesydd yn eich gweld yn gweithio mewn ffordd anniogel i chi eich hun neu eraill, byddant yn gofyn i chi roi'r gorau iddi ar unwaith, ac yn dweud pam. Gall hyn eich arwain i fethu'r asesiad yn dibynnu ar ba mor ddifrifol y cafodd y rheolau eu torri.

Cyflwyno gwaith

Mae angen ymatebion ysgrifenedig ar gyfer y tasgau yn adran cynllunio a gwerthuso'r prosiect. Rhaid darparu'r ymatebion ysgrifenedig fel ymatebion electronig wedi'u teipio. Rhaid i chi sicrhau bod eich gwaith yn daclus, hy defnyddiwch ffont safonol mewn maint darllenadwy (fel Times New Roman, neu ffont gyfatebol, maint 12), defnyddiwch fylchiad dwbl a chynnwys ymylon digonol.

Rhaid i chi wneud yn siŵr bod pob darn o waith wedi'i labelu'n glir â'ch enw, rhif y ganolfan, rhif y dysgwr a chyfeirnod yr aseiniad.

Rhaid cadw pob ffeil electronig yn y fformat canlynol: CYFENW_ENW CYNTAF_ENW'R ASESIAD_DYDDIAD

Trafodaeth Broffesiynol

Bydd y Drafodaeth Broffesiynol yn cael ei chwblhau mewn un eisteddiad wedi'i amseru, gan ganolbwyntio ar eich myfyrdodau ar y gwaith a gafodd ei wneud fel rhan o'ch Prosiect Ymarferol, ac unrhyw ddysgu y gallech ei ddefnyddio mewn cyd-destunau ehangach ym maes y grefft.

Rhaid i chi gwblhau eich Prosiect Ymarferol cyn cynnal y Drafodaeth Broffesiynol. Byddwch chi'n cael dod â dogfennau eich prosiect gyda chi er mwyn cyfeirio atynt yn ystod y Drafodaeth Broffesiynol.

Fe'ch cynghorir y bydd eich asesydd yn cofnodi'r Drafodaeth Broffesiynol at ddibenion asesu.

Rhaid i chi fod wedi llwyddo i gael eich Cadarnhad Cyflogwr ar gyfer y llwybr crefft a ddewiswyd cyn cael y Drafodaeth Broffesiynol. Bydd eich darparwr dysgu yn rhoi rhagor o wybodaeth am y broses hon.

Amser

Bydd y Drafodaeth Broffesiynol yn para 40 munud.

Gwybodaeth i helpu i baratoi ar gyfer y Draffodaeth Broffesiynol:

Yn yr asesiad hwn, bydd aseswyr yn ceisio casglu tystiolaeth o bob un o'r meysydd trafod canlynol:

Myfyrion ar y Prosiect Ymarferol

Uned 303

- 1.1 Trefnu'r adnoddau sydd eu hangen
- 1.2 Gosod meini prawf llwyddo ar gyfer y dasg/tafgau
- 1.3 Gwneud gwaith cynllunio effeithiol
- 1.4 Esbonio pam mai'r dull gweithredu arfaethedig yw'r un mwyaf priodol
- 1.5 Cydnabod goblygiadau cost a gwastraff y gwaith a sut mae'r rhain wedi cael eu hystyried
- 1.6 Rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwblhau'r dasg a nodi'r camau i'w cymryd i atal risgiau rhag dod yn broblemau
- 1.7 Nodi gofynion trosglwyddo'r gwaith

- 2.1 Adolygu pa mor briodol yw'r meini prawf llwyddo a bennwyd.
- 2.2 Gwerthuso'r defnydd a'r dewis o adnoddau
- 2.3 Gwerthuso'r allbwn gorffenedig
- 2.4 Gwerthuso ei berfformiad ei hun
- 2.5 Adolygu'r gwaith o gyflawni'r amserlenni.
- 2.6 Gwerthuso'r broses drosglwyddo.

Uned 302

- 2.1 Sut i ddatblygu a chynnal perthnasoedd gwaith cynhyrchiol
- 2.2 Sut i gyfathrebu'n effeithiol â chleientiaid, cyflogwyr a chydweithwyr a gyda rhanddeiliaid eraill drwy gydol prosiectau amgylchedd adeiledig

Uned 301

- 4.1 Dulliau adeiladu cyn 1919
- 4.2 Technegau adeiladu ar ôl 1919 ac yn y cyfnod modern
- 4.3 Technegau a thechnolegau adeiladu yn yr 21ain ganrif ar gyfer y grefft a ddewiswyd

3. Canllawiau i'r Asesydd – Asesiad Ar-sgrin

Cyflwyniad

Mae'r Asesiad ar-sgrin yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r gwahanol feysydd dysgu craidd.

Mae dau brawf y mae'n rhaid i ddysgwyr eu cael fel rhan o'r cymhwyster hwn: Prawf 1 a Phrawf 2. Os yw dysgwyr eisoes wedi ennill y cymhwyster Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) yn yr un grefft ar gyfer y cymhwyster hwn, yna maent wedi'u heithrio o Brawf 1, gan ei fod yr un prawf â'r cymhwyster Dilyniant, dim ond Prawf 2 sydd angen iddynt ei wneud. Rhaid i ddysgwyr wneud Prawf 1 a Phrawf 2 os nad ydynt wedi ennill cymhwyster Dilyniant, neu os ydynt wedi'i ennill mewn crefft sy'n wahanol i'r un a ddewiswyd ar gyfer y cymhwyster hwn.

Gwybodaeth Asesu: Prawf 1

Nifer y cwestiynau 45

Marciau ar gael 45

Graddio

Mae'r tabl isod yn darparu ffiniau gradd ddangosol ar gyfer asesiadau ar-sgrin; gall y rhain amrywio rhwng fersiynau o'r asesiadau hyn.

Marciau (Enghraifft o brawf enghreifftiol)	Gradd Asesu	Pwyntiau
0 - 20	Methu	0
21 - 23	P1	1
24 - 26	P2	2
27 - 29	M1	3
30 - 33	M2	4
34 - 37	D1	5
38 - 41	D2	6
42 - 45	D3	7

Mathau o gwestiynau Aml-ddewis

Amser a ganiateir 70 munud

Argaeledd

Mae'r asesiad hwn ar gael ar-sgrin yn ôl y galw. Bydd canolfan yn gallu 'archebu' profion i'w dysgwyr ar ddyddiad ac amser sy'n hwylus iddynt. Bydd dysgwyr yn sefyll yr asesiad drwy'r llwyfan ar-sgrin.

Amodau'r Asesiad

Bydd y prawf yn cael ei wneud ar-lein a'i farcio'n electronig. Does dim angen unrhyw ddilysu mewnol nac allanol. Rhaid i asesiadau gael eu goruchwylio gan aelod o staff sydd wedi cael hyfforddiant goruchwylio arholiadau. Ni chaniateir deunydd cyfeirio. Caniateir defnyddio cyfrifiannell sydd methu cael ei rhaglennu.

Canlyniadau

Bydd canlyniadau'r Asesiad ar-sgrin yn cael eu rhyddhau'n syth yn dilyn yr asesiad. Bydd angen i City and Guilds ryddhau canlyniadau ar gyfer fersiynau newydd pan fydd y rhain yn dod ar gael.

Trefniadau i ailsefyll

Bydd dysgwyr sy'n methu ag ennill y marc angenrheidiol i lwyddo yn yr asesiad yn cael ailsefyll.

Os bydd dysgwyr yn methu â llwyddo yn yr asesiad y tro cyntaf, maen nhw'n cael ailsefyll. Gall dysgwr ailsefyll yr asesiad faint bynnag o weithiau ag y mae'n dymuno.

Wrth ailsefyll, gall dysgwr ennill yr ystod lawn o farciau a graddau sydd ar gael.

Gwybodaeth asesu: Prawf 2

Nifer y cwestiynau	44																											
Marciau ar gael	44																											
Graddio	<p>Mae'r tabl isod yn darparu ffiniau gradd ddangosol ar gyfer asesiadau ar-sgrin; gall y rhain amrywio rhwng fersiynau o'r asesiadau hyn.</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Marciau (Enghraifft o brawf enghreifftiol)</th> <th>Gradd Asesu</th> <th>Pwyntiau</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>0 - 20</td> <td>Methu</td> <td>0</td> </tr> <tr> <td>21 - 22</td> <td>P1</td> <td>1</td> </tr> <tr> <td>23 - 25</td> <td>P2</td> <td>2</td> </tr> <tr> <td>26 - 27</td> <td>M1</td> <td>3</td> </tr> <tr> <td>28 - 30</td> <td>M2</td> <td>4</td> </tr> <tr> <td>31 - 34</td> <td>D1</td> <td>5</td> </tr> <tr> <td>35 - 39</td> <td>D2</td> <td>6</td> </tr> <tr> <td>40 - 44</td> <td>D3</td> <td>7</td> </tr> </tbody> </table>	Marciau (Enghraifft o brawf enghreifftiol)	Gradd Asesu	Pwyntiau	0 - 20	Methu	0	21 - 22	P1	1	23 - 25	P2	2	26 - 27	M1	3	28 - 30	M2	4	31 - 34	D1	5	35 - 39	D2	6	40 - 44	D3	7
Marciau (Enghraifft o brawf enghreifftiol)	Gradd Asesu	Pwyntiau																										
0 - 20	Methu	0																										
21 - 22	P1	1																										
23 - 25	P2	2																										
26 - 27	M1	3																										
28 - 30	M2	4																										
31 - 34	D1	5																										
35 - 39	D2	6																										
40 - 44	D3	7																										
Mathau o gwestiynau	Aml-ddewis																											
Amser a ganiateir	70 munud																											
Argaeledd	Mae'r asesiad hwn ar gael ar-sgrin yn ôl y galw. Bydd canolfan yn gallu 'archebu' profion i'w dysgwyr ar ddyddiad ac amser sy'n hwylus iddynt. Bydd dysgwyr yn sefyll yr asesiad drwy'r llwyfan ar-sgrin.																											
Amodau'r Asesiad	Bydd y prawf yn cael ei wneud ar-lein a'i farcio'n electronig. Does dim angen unrhyw ddilysu mewnol nac allanol. Rhaid i asesiadau gael eu goruchwyllo gan aelod o staff sydd wedi cael hyfforddiant goruchwyllo arholiadau. Ni chaniateir deunydd cyfeirio. Caniateir defnyddio cyfrifiannell sydd methu cael ei rhaglennu.																											
Canlyniadau	Bydd canlyniadau'r Asesiad ar-sgrin yn cael eu rhyddhau'n syth yn dilyn yr asesiad. Bydd angen i City and Guilds ryddhau canlyniadau ar gyfer fersiynau newydd pan fydd y rhain yn dod ar gael.																											
Trefniadau i ailsefyll	<p>Bydd dysgwyr sy'n methu ag ennill y marc angenrheidiol i lwyddo yn yr asesiad yn cael ailsefyll.</p> <p>Os bydd dysgwyr yn methu â llwyddo yn yr asesiad y tro cyntaf, maen nhw'n cael ailsefyll. Gall dysgwr ailsefyll yr asesiad faint bynnag o weithiau ag y mae'n dymuno.</p> <p>Wrth ailsefyll, gall dysgwr ennill yr ystod lawn o farciau a graddau sydd ar gael.</p>																											

Manyleb Asesu – Asesiad Ar-sgrin

Mae manylbau asesu ar gyfer yr Asesiadau ar-sgrin yn y cymhwyster hwn yn Atodiad 3 y ddogfen hon.

4. Canllawiau i'r asesydd – Prosiect Ymarferol

Cyflwyniad

Rhaid i ddysgwyr gwblhau asesiad o Brosiect Ymarferol yn ymwneud â maes crefft o'u dewis. Mae'r cyfarwyddiadau ar gyfer y tasgau cynllunio a gwerthuso a roddir i ddysgwyr yn rhai generig ar gyfer pob crefft. **Rhaid i'r cyflogwr a'r ganolfan gytuno ar ddim mwy na 4 tasg asesu ymarferol seiliedig ar waith** er mwyn cyflawni'r gofynion sylfaenol o ran cynnwys asesu (MAC) a chynnwys y grefft a ddarperir yn y ddogfen hon.

Bydd yr asesiad **yn cynnwys o leiaf 3 ymweliad asesu** fel yr amlinellir yn y canllawiau ar gyfer y dasg a nodir isod. Rhaid i ddysgwyr **gynllunio**'r dasg/tasgau, **perfformio**'r elfennau ymarferol, a **gwerthuso**'r dulliau a ddefnyddiwyd i gwblhau'r dasg/tasgau ac ansawdd y deilliannau, gan gwblhau adroddiad gwerthuso.

Rhaid i'r meini prawf a drafodir yn yr asesiad gynnwys y **gofynion sylfaenol o ran cynnwys asesu (MAC)** a nodir yn y tablau Cynllunio, Perfformio a Gwerthuso isod. Yn ogystal â'r MAC a amlinellir isod, rhaid i'r asesiad fodloni gofynion ychwanegol y meini prawf crefft, a nodir isod hefyd. Mae'r rhain yn dynodi'r nifer sylfaenol o feini prawf penodol i grefft y mae'n rhaid eu dangos yn elfen ymarferol y prosiect, yn ogystal â'r meini prawf a restrir yn y MAC.

Rhaid i'r cyflogwr a'r darparwr gytuno ar y meini prawf a ddewiswyd i fodloni'r MAC cyn yr asesiad. Rhaid i'r dysgwr weithio gyda'r cyflogwr a'r darparwr i gytuno pryd mae'n barod ar gyfer asesiad, a phryd a ble bydd y rhain yn digwydd.

Rhaid defnyddio'r dogfennau Cynllunio Tasgau a ddarparwyd i nodi'r jobsys a'r tasgau y ceir tystiolaeth ohonynt.

Yn y cyd-destun uchod, diffinnir "tasg" a "job" fel a ganlyn:

- Tasg: darn o waith wedi'i ddiffinio sydd wedi cael ei fapio yn ôl y meini prawf ac a fydd yn cael ei asesu.
- Job: darn mawr o waith a wneir gan sefydliad/cyflogwr/tîm/ac ati sy'n cynnwys tasgau llai.

Bydd tua 74 awr o ddysgu dan arweiniad (GLH) yn cael eu dyrannu iddo, a ddyrennir ar draws yr elfennau cynllunio, ymarferol a gwerthuso fel a ganlyn:

- tua 12 awr i gwblhau'r gwaith cynllunio ar gyfer tasgau ymarferol
- tua 50 awr i gwblhau'r tasgau ymarferol darparwr,
- tua 12 awr i gwblhau'r gwaith gwerthuso tasgau ymarferol

Manyleb asesu cynllunio (MAC)

1. Cynllunio	Cyfeirnod yr Uned a'r Meini Prawf
Maen prawf 1	
Llunio rhestr adnoddau sy'n nodi'r offer, y cyfarpar a'r deunyddiau sydd eu hangen i gwblhau'r dasg.	Uned 303 - 1.1
Maen prawf 2	
Llunio amserlen waith a datganiad dull i gynllunio trefn/camau'r gwaith a'r dulliau a ddefnyddir i gwblhau'r dasg, gan esbonio pam mai dyma'r ffordd fwyaf priodol o ddelio â'r gwaith. Cydnabod goblygiadau cost a gwastraff a sut mae'r rhain wedi cael eu hystyried.	Uned 303 - 1.3, 1.4, 1.5
Maen prawf 3	
Llunio asesiad risg i ganfod unrhyw risgiau posibl i iechyd a diogelwch, a nodi risgiau i gyflawni gwaith yn brydlon ac i'r ansawdd a ddisgwyllir. Mae'r dysgwr yn nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i atal risgiau rhag dod yn broblemau.	Uned 303 - 1.6
Maen prawf 4	
Pennu meini prawf llwyddo ar gyfer y dasg; adnabod meini prawf llwyddo priodol ar gyfer y dasg y mae modd eu cyflawni a'u mesur, gan gynnwys y cerrig milltir llai sy'n nodi gweithgareddau allweddol, yr adnoddau a ddefnyddir, ac ansawdd y gorffeniad ac ati sy'n cefnogi'r dysgwr i lwyddo i gwblhau'r dasg a diwallu'r fanyleb.	Uned 303 - 1.2
Maen prawf 5	
Cynllunio dulliau ac arddulliau cyfathrebu i'w defnyddio wrth gyfathrebu ag amrywiaeth o randdeiliaid. Nodi'r wybodaeth y byddai angen ei chynnwys wrth drosglwyddo gwaith i grefft ddilynol a/neu i gwsmer a'r fformat mwyaf priodol i gyfleu'r wybodaeth hon.	Uned 302 - 2.2 Uned 303 - 1.7
Maen prawf 6	
Nodi peryglon a risgiau.	Uned 205 – 2.1, 2.2, 2.3

Manyleb asesu perfformio (MAC)

2. Perfformio	Cyfeirnod yr Uned a'r Meini Prawf
Rhaid bodloni 4 o'r 7 maen prawf canlynol	
Maen prawf 7a	
<p>Paratoi arwynebau cefndir i dderbyn systemau plastro mewnol un a dwy gôt yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir mewn perthynas â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • waliau plaen • waliau gydag agoriadau – ciliau, silffoedd a soffitiau (drysau a/neu ffenestri) • waliau â chilfachau • nenfydau plaen • trawstiau a phieri. 	226 Creu gorffeniadau plastro soled mewnol CD3 3.1
Maen prawf 7b	
<p>Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ac adnoddau mecanyddol i baratoi deunyddiau wedi'u cyfuno ymlaen llaw, gosod a gorffen gwaith plastr un, dwy a thair côt mewnol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir;</p> <ul style="list-style-type: none"> • waliau plaen • waliau gydag agoriadau – ciliau • silffoedd a soffitiau (e.e. drysau a/neu ffenestri) • waliau â chilfachau • nenfydau plaen • trawstiau a phieri. 	226 Creu gorffeniadau plastro soled mewnol CD3 3.4
Maen prawf 7c	
<p>Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy, cyfarpar mecanyddol ac adnoddau i gynhyrchu côt orffen wyneb plaen ar gyfer waliau allanol ynghy ag o leiaf un o'r gorffeniadau canlynol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir;</p> <ul style="list-style-type: none"> • gro chwipio • plastr garw • tyrolean • rendrau synthetig neu heb fod yn synthetig • gweadau silicon • gweadedd crafal sy'n seiliedig ar sment • wedi'i flendio ymlaen llaw neu wedi'i gymysgu ymlaen llaw. 	227 Gosod rendr soled ar arwynebau cefndir a chreu gorffeniadau, LO3, 3.5
Maen prawf 7d	
<p>Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol i baratoi arwynebau cefndir, cymysgu plastr a rhoi plastr soled mewnol ar o leiaf chwech o'r canlynol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir;</p> <ul style="list-style-type: none"> • onglau mewnol ac allanol ar wahân i 90° • waliau gaflog • ffenestri crwn neu fwaog 	319 Gosod plastr soled ar arwynebau mewnol cymhleth LO3, 3.2

<ul style="list-style-type: none"> • colofnau crwn neu sgwâr • pieri cysylltiedig • trawstiau • waliau neu nenfydau ar oledf • arwynebau crwm • waliau neu nenfydau delltog • dellt metel wedi'u hehangu (EML). 	
Maen prawf 7e	
<p>Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol i baratoi arwynebau cefndir, cymysgu rendr a rhoi gorffeniadau rendr soled allanol ar o leiaf bedwar o'r canlynol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tyrolean • gro chwipio • uniad nadd • plastr garw (harling, gro chwipio gwlyb) • crafog • gweadog • carreg ffug • addurnol. 	<p>320 Creu gorffeniadau rendr allanol cymhleth LO3, 3.2</p>
Maen prawf 7f	
<p>Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol i osod plastrfwrdd yn unol â'r cyfarwyddiadau gwaith a roddwyd ynglŷn â'r canlynol; cladin ar bren a/neu fetel, a gwaith maen gan ffurfio agoriadau gyda chiliau.</p>	<p>321 Gosod plastrfwrdd yn fecanyddol a thrwy fond uniongyrchol LO3, 3.2</p>
Maen prawf 7g	
<p>Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol i baratoi arwynebau, cymysgu a gosod ffyn lefelu lloriau yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir mewn perthynas â'r canlynol; ffyn lefelu tywod a sment, lefelau a/neu gwympiadau.</p>	<p>322 Gosod systemau ffyn lefelu lloriau LO3, 3.2</p>

Rhaid cyflawni'r holl feini prawf canlynol	
Maen prawf 7h	
Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad yng nghyswllt iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle. Rhaid i hyn gynnwys symud, trin a storio deunyddiau ac adnoddau'n ddiogel ac yn unol â gofynion y sefydliad a'r cynnyrch.	<i>Uned 304 Cydymffurfio ag iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle LO5 5.1, 5.2 Uned 306 Symud, trin neu storio adnoddau LO7 7.1, 7.2</i>
Maen prawf 7i	
Cydymffurfio â gweithdrefnau a threfniadau diogelwch y sefydliad. Rhaid i hyn gynnwys gweithdrefnau ategol sy'n ymwneud â delio â damweiniau ac argyfyngau, a defnyddio gwybodaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad.	<i>Uned 304 Cydymffurfio ag iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle LO6 6.1</i>
Maen prawf 7j	
Cynllunio a chwblhau'r gwaith drwy ddilyn gweithdrefnau'r sefydliad, dehongli dogfennau a defnyddio adnoddau'n gynhyrchiol.	<i>Uned 305 Cydymffurfio ag arferion gweithio cynhyrchiol LO5 5.1, 5.2</i>
Maen prawf 7k	
Dangos sgiliau cyfathrebu a gweithio cynhyrchiol sy'n cyfrannu at berthynas waith dda. Rhaid i hyn gynnwys defnyddio egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth	<i>Uned 305 Cydymffurfio ag arferion gweithio cynhyrchiol LO4 4.1, 4.2, LO6 6.1, 6.2</i>

Gofynion meini prawf crefft ychwanegol

*Yn yr adran hon, bydd y Consortiwm yn rhestru gofynion cynnwys ychwanegol, y tu hwnt i'r MAC, y mae'n rhaid eu cynnwys. Mae'r tabl isod yn nodi isafswm nifer y meini prawf ychwanegol o **bob** uned y mae'n rhaid eu cyflawni, gan ganiatáu i gyflogwyr ac i ganolfannau ddewis y meini prawf sydd fwyaf priodol i'r dasg/taeau. Rhaid i'r meini prawf a ddewisir i fodloni'r isod fod yn wahanol i'r rhai a nodir yn y tabl uchod.

Uned crefft	Nifer ychwanegol o feini prawf i'w bodloni
226 Creu gorffeniadau plastro soled mewnol	4 maen prawf o bob rhan o 4 o'r unedau
227 Gosod rendr soled ar arwynebau cefndir a chreu gorffeniadau	
319 Gosod plastr soled ar arwynebau mewnol cymhleth	
320 Creu gorffeniadau rendr allanol cymhleth	
321 Gosod plastrfwrdd yn fecanyddol a thrwy fond uniongyrchol	
322 Gosod systemau ffyn lefelu lloriau	

Manyleb asesu gwerthuso (MAC)

3. Gwerthusiad	Cyfeirnod yr Uned a'r Meini Prawf
Maen prawf 8	
Gwerthuso'r gwaith a gwblhawyd yn erbyn y fanyleb a'r meini prawf llwyddo – allbwn sy'n addas i'r diben, yn ddiogel ac yn unol â gofynion y fanyleb, ansawdd y gwaith. Gwerthuso'r offer a ddewiswyd	Uned 303 – 2.3, 2.2
Maen prawf 9	
Pwyso a mesur a oedd y meini prawf llwyddo a osodwyd yn briodol ac a oeddent yn helpu i gyflawni'r dasg yn llwyddiannus ac yn effeithlon.	Uned 303 – 2.1
Maen prawf 10	
Gwerthuso eich perfformiad eich hun – cryfderau, gwendidau, meysydd i'w gwella. Ansawdd cyffredinol y gwaith (gosodiad a gorffeniad ac ati).	Uned 303 – 2.4
Maen prawf 11	
Adolygu'r gwaith o gyflawni'r amserlenni – rhesymau dros oedi os digwyddodd hynny a pha gamau y gellid bod wedi'u cymryd i atal/osgoi hyn.	Uned 303 – 2.5
Maen prawf 12	
Gwerthuso'r trosglwyddo – ansawdd ac eglurder yr wybodaeth a ddarparwyd, cyflawni pwrpas y trosglwyddo, llwyddiant y dull cyfathrebu a ddewiswyd.	Uned 303 – 2.6 Uned 302 – 2.2

Canllawiau ar y tasgau

Tasg gynllunio

Rhaid i'r ganolfan, y cyflogwr/goruchwyliwr a'r dysgwr lenwi a chytuno ar y **Ddogfen Cynllunio Tasgau** cyn i'r prosiect ddechrau.

Bydd yr asesiad yn cael ei asesu'n fewnol a bydd ansawdd yn cael ei sicrhau. Rhaid i'r cam cynllunio yn yr asesiad hwn ddigwydd mewn swyddfa, ystafell ddogfen neu amgylchedd addas arall dan oruchwyliaeth sy'n galluogi'r dysgwr i gynllunio ei waith yn ddiogel. Rhaid i gyflogwyr a/neu ganolfannau ddyrannu aelod o staff i oruchwyllo'r elfen gynllunio a sicrhau bod yr holl amodau asesu a nodir yn cael eu bodloni – bydd yr aelod hwn o staff hefyd yn cadarnhau/dilysu'r amser a gymerir i gwblhau pob cynllun drwy lofnodi dogfennau cynllunio'r dysgwr.

Rhaid i ddysgwyr lunio a chyflwyno dogfennau cynllunio asesiad cychwynnol ar gyfer yr holl dasgau y cytunwyd arnynt (dim mwy na 4 tasg). Pwrpas yr asesiad cychwynnol yw sicrhau bod pob cynllun yn cyrraedd y trothwy i basio, a rhaid cwblhau hyn cyn ymgymryd â gweithgarwch ymarferol ar gyfer pob cynllun, fel yr amlinellir isod.

Yn unol â'r canllawiau a roddir i ddysgwyr, rhaid cyflwyno tystiolaeth o'r cynllunio ar ffurf copi electronig.

Nid oes ffurflenni cofnodi penodol wedi cael eu darparu ar gyfer dogfennau ysgrifenedig fel asesiadau risg neu ddatganiadau dull. Rhaid defnyddio ffurflenni profforma y cyflogwr neu'r canolfannau. **Rhaid i ddysgwyr gwblhau eu fersiynau eu hunain o'r dogfennau hyn at ddibenion asesu, hyd yn oed os yw cyflogwyr eisoes wedi eu cwblhau** – rhaid i ddysgwyr beidio â chael mynediad at gynlluniau cyflawn y cyflogwr ar gyfer y gwaith sy'n cael ei wneud fel rhan o'r gweithgaredd asesu. **Rhaid i ddysgwyr gofnodi cyfanswm yr amser a dreuliyd yn cynhyrchu pob cynllun. Rhaid i hyn gael ei ddilysu gan y sawl a neilltuwyd i oruchwyllo datblygiad pob cynllun.**

Fel rhan o'r broses asesu/cynllunio tasgau, rhaid i aseswyr a chyflogwyr gytuno ar ddyddiadau ar gyfer asesu meini prawf ymarferol yn y gweithle. Ar sail y cynlluniau hyn, **rhaid i aseswyr, cyflogwyr a dysgwyr gytuno ar ddyddiadau i gyflwyno'r dystiolaeth gynllunio ar gyfer pob tasg o leiaf 2 wythnos cyn y trefnwyd i'r gwaith ymarferol ddechrau ar gyfer pob cynllun**, er mwyn gallu asesu ac o bosibl ailgyflwyno'r dystiolaeth hon cyn i'r tasgau ymarferol ddechrau.

I gefnogi'r gwaith o reoli'r asesu parhaus a'r ailgyflwyno posibl, **mae'n rhaid i'r asesydd farcio'r elfen gynllunio a chadarnhau bod sgôr sy'n cyrraedd y trothwy pasio isaf wedi'i chyrraedd drwy ennill o leiaf 1 marc ar gyfer pob maen prawf ar gyfer pob cynllun** (mae manylion hyn ar gael yn adran Marcio a Graddio'r ddogfen hon).

Os na cheir sgôr sy'n cyrraedd y trothwy pasio ar gyfer y dystiolaeth gynllunio a gyflwynir ar gyfer yr asesiad cychwynnol, rhaid rhoi amser i ddysgwyr adolygu eu cynllun(iau) ac ailgyflwyno er mwyn bodloni'r gofynion ar gyfer meini prawf sydd wedi'u methu a chyrraedd y trothwy pasio – rhaid rhoi gwybod i ddysgwyr am y meini prawf maen nhw wedi'u methu, ond ni ddylid rhoi arweiniad iddynt ynghylch pam na pha gamau mae'n rhaid eu cymryd.

Rhaid i ddysgwyr **gael sgôr sy'n cyrraedd y trothwy pasio ar gyfer pob cynllun** yn y dasg gynllunio.

Rhaid darparu hysbysiad i ddysgwyr bod sgôr sy'n cyrraedd y trothwy pasio wedi cael ei chyflawni ar gyfer pob cynllun o leiaf 1 wythnos cyn y trefnwyd i'r gwaith ymarferol ddechrau ar gyfer pob cynllun.

Dim ond y cynllun ar gyfer y job fwyaf a gyflawnir fel gwaith a asesir a fydd yn cyfrannu at y radd gyffredinol. Y dasg fwyaf yw'r dasg lle bydd tystiolaeth o'r nifer fwyaf o feini prawf.

Bydd dysgwyr yn nodi meini prawf llwyddo ar gyfer y job(sys) sy'n cael eu cyflawni, lle mae meini prawf llwyddo cyflogwr neu gwsmer yn bodoli, mae'n rhaid ymgorffori'r rhain yng nghynllun y dysgwr ochr yn ochr â'i feini prawf llwyddo ei hun, a'u nodi'n glir fel meini prawf ar gyfer y cyflogwr neu'r cwsmer.

Mae'n rhaid i gynllun y dysgwr ddangos ei fod wedi ystyried y meini prawf sydd wedi'u rhestru yn elfen Gynllunio'r gofynion sylfaenol o ran cynnwys asesu (MAC), ac mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o'r cynnwys y dylid rhoi sylw iddo:

- rhestr adnoddau sy'n cynnwys yr offer, y deunyddiau a'r cyfarpar sydd eu hangen i gwblhau pob tasg.
- datganiad dull sy'n nodi'r dulliau gweithio a fydd yn defnyddio'r adnoddau yn y ffordd orau (gan ystyried goblygiadau cost a gwastraff o safbwynt ariannol ac amgylcheddol) a bodloni gofynion manyleb, gofynion statudol a gofynion cytundebol, gyda sail resymegol ynghylch pam mai'r dulliau a gynlluniwyd yw'r rhai mwyaf priodol.
- rhestr o'r gwaith (gydag amserlenni) – rhaid i gynllun y dysgwr nodi pa mor hir mae'n amcangyfrif y bydd yn ei gymryd i gwblhau pob tasg, sut mae'n bwriadu gwneud/trefnu'r gwaith ac unrhyw gerrig milltir mae'n dymuno eu cyflawni (er enghraifft prif weithgareddau tasgau), gan gynnwys y sail resymegol ynghylch pam mai'r drefn hon yw'r dull mwyaf priodol.
- asesiad risg a disgrifiad o'r risgiau i gyflawni gwaith yn unol â gofynion ansawdd ac amser a sut y gellid osgoi'r risgiau hyn.
- meini prawf llwyddo ar gyfer y dasg – beth fydd llwyddiant yn ei olygu ar gyfer y tasgau o safbwynt ansawdd y gwaith, y deunyddiau a ddefnyddir, ansawdd y gorffeniad.
- amlinelliad o arddulliau a dulliau cyfathrebu a ddefnyddir gydag amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys cleientiaid/cwsmeriaid, cyflogwyr, cydweithwyr, ac ati.

Bydd y gwaith cynllunio a gyflwynir gan y dysgwr yn cael ei asesu y tu allan i'r ymweliadau asesu yn erbyn y meini prawf a restrir yn y grid marcio'r elfen gynllunio yn Atodiad 1.

Tasg ymarferol (Perfformio)

Bydd yr elfen hon o'r asesiad yn cynnwys y dysgwr yn arddangos y sgiliau y mae wedi'u dysgu a'u hennill. Bydd y dysgwr yn defnyddio'r cynllun y mae'r cyflogwr wedi'i lofnodi i gwblhau'r dasg/tasgau.

Bydd yr asesydd yn defnyddio cynllun asesu fel sail ar gyfer cynnal **o leiaf 3 ymweliad asesu**. Bydd hyn yn golygu casglu tystiolaeth o'r dysgwr yn perfformio gwahanol gymwyseddu ac ar wahanol gamau yn y tasgau, a/neu archwilio'r gwaith gorffenedig. Rhaid cynllunio ymweliadau asesu er mwyn gallu asesu'r holl feini prawf a restrir yn y cynlluniau asesu. **Rhaid i ymweliadau asesu gynnwys arsylwi'r dysgwr yn uniongyrchol** gan ddangos tystiolaeth o'r meini prawf gofynnol.

Rhaid i aseswyr geisio asesu jobsys a thasgau ar wahanol gamau er mwyn gallu ystyried sut mae'r gwaith a'r dysgwr yn datblygu mewn penderfyniadau asesu. Rhaid i aseswyr geisio asesu meini prawf unigol mewn dim ond un ymweliad asesu gymaint i'r graddau sy'n ymarferol bosibl – mae rhai meini prawf yn fwy nag eraill ac mae angen defnyddio nifer o offer, technegau, dulliau, deunyddiau ac ati. Yn y sefyllfa hon, efallai bydd angen asesu meini prawf dros nifer o ymweliadau asesu, pan fydd angen gwneud hynny rhaid i aseswyr wneud penderfyniad asesu cyfannol ar gyfer meini prawf ar sail perfformiad y dysgwr ar draws yr ymweliadau asesu.

Arsylwi'r dysgwr yn uniongyrchol yw'r prif ddull asesu, gellir defnyddio tystiolaeth ategol ychwanegol ond bydd yn dystiolaeth ategol ar gyfer ymweliadau asesu yn unig ac ni ellir ei defnyddio fel yr unig ffynhonnell dystiolaeth ar gyfer meini prawf asesu.

Gofynion pan na fydd hi'n bosibl arsylwi'n uniongyrchol:

Os bydd amgylchiadau'n newid ac os na ellir arsylwi'n uniongyrchol, rhaid gwneud cynlluniau ar gyfer arsylwi mewn ffordd arall. Os nad yw'n bosibl arsylwi'n uniongyrchol ar unrhyw feini prawf, rhaid darparu sail resymegol glir ynghylch pam na ellid gwneud hyn mewn cynllun asesu diwygiedig, ynghyd â'r dulliau asesu eraill a fydd yn cael eu defnyddio i ddangos tystiolaeth o'r meini prawf.

Gall tystiolaeth ategol ychwanegol gynnwys:

- tystiolaeth fideo
- tystiolaeth ffotograffig
- tystiolaeth tyst arbenigol gan gynrychiolydd dynodedig y cyflogwr.

Rhaid i'r dystiolaeth ategol ychwanegol uchod gael ei chynhyrchu a'i dilysu gan gynrychiolydd dynodedig y cyflogwr – bydd y cyflogwr a'r ganolfan yn cytuno ar hyn, gan roi cofnod o gymwysterau/lefel profiad y cynrychiolydd i'r asesydd a bydd yr asesydd mewnol yn cadw hyn at ddibenion sicrhau ansawdd.

Mae modd defnyddio tystiolaeth tyst arbenigol i **gefnogi penderfyniadau asesu'r asesydd** ar gyfer gwaith sydd wedi cael ei gwblhau cyn neu rhwng ymweliadau asesu sy'n gysylltiedig â'r tasgau asesu a nodwyd. Rhaid cadw cofnod o dystiolaeth tystion, pan fyddant yn bodoli, i gefnogi gweithgareddau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol.

Ni all tystiolaeth tyst fod yr unig ddull o dystiolaeth ar gyfer asesu, arsylwi'r dysgwr, a rhaid i dystiolaeth o'r cynnyrch gwaith fod ar gael i aseswyr yn ystod ymweliadau asesu.

Pan fydd y mathau ychwanegol hyn o dystiolaeth ategol yn cael eu defnyddio, mae'n rhaid iddynt fod yn ddilys, yn ddibynadwy ac wedi'u priodoli'n glir i'r dysgwr. Rhaid cadw copiâu electronig o unrhyw dystiolaeth ychwanegol a ddefnyddir i gefnogi penderfyniadau asesu er mwyn cefnogi gweithgareddau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol.

Bydd y dystiolaeth hon yn cael ei defnyddio i helpu'r asesydd i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am berfformiad y dysgwr yn ystod y cyfnodau asesu a arsylwir a'r broses farcio.

Dim ond gwaith a nodir yn y dasg/tasgau asesu y cytunwyd arnynt fydd yn cael ei ystyried yn rhan o'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad cyffredinol, a bydd angen i'r gwaith gorffenedig gael ei ddilysu gan gynrychiolydd dynodedig y cyflogwr.

Bydd yr asesydd yn defnyddio'r gridiau marcio wrth asesu gwaith y dysgwr. Ar gyfer pob ymweliad, bydd yr asesydd yn marcio'r dysgwr yn erbyn yr adran berthnasol ar y grid marcio.

Bydd angen i'r asesydd gynllunio'n ofalus i sicrhau bod modd archwilio gwaith y dysgwr ar gamau priodol.

Rhaid i'r dysgwr weithio'n ddiogel bob amser wrth gyflawni'r dasg/tasgau ymarferol.

Bydd gwaith y dysgwr yn cael ei farcio gan ddefnyddio'r MAC yng nghyd-destun y fanyleb. Bydd y fanyleb hon yn berthnasol i'r dasg ac yn cael ei gosod gan y cyflogwr. Gall enghreifftiau o fanyleb gynnwys y canlynol, a mwy:

- Safon ryngwladol gydnabyddedig
- Cod ymarfer cydnabyddedig
- Rheoliadau a Safonau Diwydiant
- Archeb gwaith neu daflen waith

- Llawlyfr gwneuthurwr
- Safon fewnol cwmni
- Meini prawf derbyn cwsmer.

Tasg gwerthuso

Pwrpas yr elfen hon yw bod y dysgwr yn pwyso a mesur ac yn gwerthuso'r dulliau a ddefnyddiwyd i gyflawni'r dasg/tasgau ac ansawdd y canlyniadau.

Rhaid i ddysgwyr lunio gwerthusiad o'r job fwyaf a wnaed fel rhan o'r gwaith a aseswyd a chyflwyno'r gwerthusiad hwnnw i'w asesu. Ystyrir mai'r job fwyaf yw'r job lle bydd tystiolaeth o'r nifer fwyaf o feini prawf.

Fel rhan o'r gwerthusiad, caiff dysgwyr gynnwys tystiolaeth tyst/adborth gan gleientiaid a gwerthuso hynny yn erbyn eu meini prawf llwyddo a'r gwersi a ddysgwyd.

Mae'n rhaid i werthusiad y dysgwr ddangos ei fod wedi ystyried y meini prawf sydd wedi'u rhestru yn elfen Gwerthuso'r gofynion sylfaenol o ran cynnwys asesu (MAC), ac mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o'r cynnwys y rhoddwyd sylw iddo:

- A wnaethant fodloni eu meini prawf llwyddo?
- A wnaethant fodloni gofynion y dasg a nodwyd yn y fanyleb a roddwyd gan y cyflogwr?
- Myfyrio ynghylch eu perfformiad eu hunain – cryfderau, gwendidau, ansawdd cyffredinol allbynnau gwaith;
- Adolygu a gyflawnwyd o fewn yr amserlenni, os na wnaed hynny, pam a pha gamau y gellid bod wedi'u cymryd i osgoi hyn?
- Gwerthuso trosglwyddo/trosglwyddiadau – a oedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn glir ac a oedd yn cyflawni'r pwrpas a fwriadwyd, a gafodd y dull cyfathrebu cywir ei ddewis?

Bydd y gwaith gwerthuso a gyflwynir gan y dysgwr yn cael ei asesu y tu allan i'r arsylwadau yn erbyn y meini prawf a restrir yn y grid marcio gwerthuso isod.

Canllawiau cyffredinol

Amserlen

Disgwylir i'r prosiect hwn gael ei gwblhau ar adeg yn y rhaglen ddysgu a ystyrir i fod yn briodol gan y darparwr a'r cyflogwr, gan roi amser i ailsefyll lle bo angen. Rhaid i'r cyflogwr a'r ganolfan gynllunio'r asesiad i gynorthwyo'r holl dasgau sydd i'w cwblhau ac o fewn amserlen sy'n hwylus i'r dysgwr, i'r cyflogwr ac i'r ganolfan. Rhaid i'r cyfnod hwn gynorthwyo'r dysgwr i symud ymlaen gyda'r tasgau heb unrhyw fwlch nac oedi diangen i'r asesiad.

Os oes angen mwy o amser ar ddysgwr i gwblhau'r asesiad(au) oherwydd salwch/absenoldeb tosturiol, yna rhaid ystyried hyn gan ddilyn y canllawiau sydd ar wefan City & Guilds: <https://www.icq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration/regulations-and-guidance/>

Amodau asesu

Bydd cam cynllunio'r asesiad yn digwydd mewn swyddfa, ystafell ddosbarth neu amgylchedd addas arall dan oruchwyliaeth sy'n galluogi'r dysgwr i gynllunio ei waith yn ddiogel, gan sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad at gyfarpar TG ac adnoddau priodol iddynt gyflawni gwaith ymchwil cynhwysfawr i gynorthwyo eu cynllunio. Gallai'r rhain gynnwys nodiadau cyfarwyddyd, rheoliadau a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Rhaid i elfen ymarferol yr asesiad hwn gael ei gwneud yn y gweithle. Rhaid i ddysgwyr gael eu goruchwyllo'n ddigonol gan eu cyflogwr/goruchwylwr a rhaid iddynt weithio'n ddiogel.

Bydd y gwerthusiad yn cael ei gynnal mewn swyddfa, ystafell ddosbarth neu amgylchedd addas arall dan oruchwyliaeth sy'n galluogi'r dysgwr i werthuso ei waith, gan sicrhau bod dysgwyr yn gallu cael gafael ar gyfarpar TG a deunyddiau adnoddau priodol a allai fod yn gyhoeddiadau normadol, yn gyhoeddiadau'r diwydiant neu'n ffynonellau deddfwriaethol, neu'n ddeunyddiau gweithgynhyrchwyr a deunyddiau penodol i grefft; gan alluogi dysgwyr i gynnal gwerthusiad cynhwysfawr.

Ailsefyll/ailgyflwyno

Ailsefyll: cyflwyno darn newydd o dystiolaeth yn erbyn meini prawf a fethwyd.

Ailgyflwyno: cyflwyno darn diwygiedig o dystiolaeth i'w asesu.

Os nad yw dysgwr yn bodloni'r gofynion sydd wedi'u nodi yn yr asesiad hwn, rhaid ailgyflwyno tystiolaeth, rhaid rhoi'r amser canlynol i ddysgwyr gwblhau gwaith cyn ailgyflwyno:

- Cynllunio: dim mwy na'r amser a gymerwyd yn wreiddiol i gwblhau pob tasg gynllunio.
- Ymarferol: dim mwy na'r amser a neilltuwyd yn wreiddiol ar gyfer y dasg yn Nogfen Cynllunio'r Dasg i gwblhau'r gweithgareddau ailsefyll fel yr esbonnir isod.
- Gwerthuso: dim mwy na 6 awr i gwblhau'r holl waith i'w ailgyflwyno.

Cynllunio

Rhaid i ddysgwyr gyrraedd trothwy pasio ar gyfer pob cynllun a gyflwynir.

Os na fydd unrhyw gynlluniau'n cyrraedd y trothwy i basio, rhaid rhoi gwybod i ddysgwyr am y meini prawf a fethwyd ac ailgyflwyno.

Wrth ailgyflwyno, dim ond y meini prawf sydd wedi methu fydd yn cael eu hailasesu yn yr ailgyflwyniad.

Wrth ailgyflwyno, gall dysgwr ennill yr ystod lawn o farciau sydd ar gael.

Perfformio

Rhaid i ddysgwyr basio'r holl feini prawf sydd wedi'u rhestru yn nogfennau'r Cynllun Asesu a Chynllunio Tasgau. Os methir unrhyw feini prawf, rhaid i ddysgwyr ailgyflwyno i fodloni'r gofynion asesu. Rhaid gosod tasg newydd, gyda dogfennau'r Cynllun Asesu a Chynllunio Tasgau newydd wedi'u cwblhau i nodi'r meini prawf sydd i'w hailasesu.

Os yw'r meini prawf a fethwyd wedi'u rhestru yn y MAC, yna mae'n rhaid cyflawni'r meini prawf penodol a fethwyd fel rhan o'r ailsefyll. Er enghraifft, pe bai maen prawf 7a, a restrir yn y MAC yn cael ei fethu, byddai'n rhaid i'r dysgwr gyflwyno tystiolaeth newydd i gyflawni 7a yn benodol.

Os nad yw'r meini prawf sydd wedi cael eu methu wedi'u rhestru yn y MAC a'u bod wedi cael eu dewis fel rhan o'r gofynion meini prawf crefft ychwanegol, rhaid i ganolfannau, cyflogwyr a dysgwyr gytuno ar y meini prawf i'w cynnwys yn y dasg ailsefyll yn unol â'r gofynion meini prawf crefft ychwanegol a osodwyd – gellid dewis y meini prawf aflwyddiannus, neu gellid dewis meini prawf newydd sy'n bodloni'r gofynion meini prawf crefft ychwanegol. Er enghraifft, petai dysgwr yn methu maen prawf 3.1 o uned 210, gallai ddewis naill ai ailsefyll y maen prawf penodol hwnnw, neu ddewis opsiwn gwahanol o'r ystod o feini prawf ychwanegol e.e. maen prawf 3.1 o uned 209.

Mae'r meini prawf yn y MAC a'r Gofynion Crefft Ychwanegol ar gael yn adran Manyleb Asesu'r ddogfen hon (tud. 18).

Rhaid cynllunio a chynnal ymweliadau asesu newydd.

Ni chaiff dysgwr ailgyflwyno unrhyw waith sy'n gysylltiedig â thasg lle cafodd farc methu. Wrth ailsefyll, gall dysgwyr gael yr ystod lawn o farciau sydd ar gael ar gyfer y maen/meini prawf sy'n cael eu hasesu.

Gwerthusiad

Rhaid i ddysgwyr basio'r holl feini prawf sy'n ymwneud â gwerthuso. Os bydd unrhyw un o'r meini prawf hyn yn cael eu methu, rhaid i ddysgwyr ailgyflwyno eu gwaith yn dilyn cyfnod o ddysgu i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau a ganfuwyd mewn gwybodaeth neu sgiliau, gan eu galluogi i wella eu gwaith er mwyn cyrraedd y safon ofynnol. Wrth ailgyflwyno gwaith dim ond y meysydd a fethodd yn yr ymgais gyntaf fydd yn cael eu hailasesu, gall dysgwyr gyflawni'r ystod lawn o farciau sydd ar gael ar gyfer y maen/meini prawf sy'n cael eu hasesu.

Iechyd a diogelwch

Mae'r gofyniad i ddilyn arferion gweithio diogel yn rhan annatod o holl gymwysterau ac asesiadau City & Guilds a chyfrifoldeb y canolfannau yw sicrhau bod yr holl ofynion iechyd a diogelwch perthnasol yn eu lle cyn i ddysgwyr ddechrau ar asesiad y prosiect.

Pan fydd dysgwr yn methu â dilyn y gweithdrefnau a'r arferion iechyd a diogelwch cywir yn ystod asesiad y prosiect, rhaid stopio'r asesiad ac egluro pam i'r dysgwr. Rhaid rhoi gwybod i'r dysgwr nad oedd wedi cyrraedd y safon asesu sy'n ofynnol. Yn ôl disgrisiwn y ganolfan, gall dysgwyr ail-wneud yr asesiad yn nes ymlaen pan fyddant yn gallu gweithio'n ddiogel. Os oes unrhyw amheuaeth rhaid gofyn am arweiniad gan y Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol.

Dogfen Cynllunio Tasgau

Mae ffurflenni Cynllunio Tasgau yn atodiad 2.1 y ddogfen hon.

Rhaid defnyddio'r rhain i helpu i gynllunio tasgau i ddangos tystiolaeth o'r meini prawf a ddewiswyd. O fewn y darparwyr hyn, bydd cyflogwyr yn rhoi trosolwg o'r dasg sydd i'w chwblhau, hyd arfaethedig y dasg, gwir hyd y dasg, a'r meini prawf y bydd pob tasg yn rhoi tystiolaeth ohonynt.

Enghraifft o Gynllunio Tasgau

Enw'r Dysgwr:			
Enw'r Asesydd:			
Beth fydd y dysgwr yn ei wneud (Tasg)	Adeiladu strwythur to modern		
Trosolwg o elfennau'r dasg	<p><i>Wedi'i gomisiynu i godi strwythur to a llinell to modern ar annedd ddomestig newydd gan ddefnyddio cyplau to wedi'u cynhyrchu'n barod a deunyddiau penodol.</i></p> <p><i>Gosod a diogelu walblatiau ar wal flociau bresennol a marcio safleoedd y trawstiau.</i></p> <p><i>Gosod y trawst cyntaf, sythu gyda charntro dros dro.</i></p> <p><i>Gosod gweddill y trawstiau yn unol â'r canllawiau bylchau a nodwyd a chyfateb â'r marciau ar walblat, gan sicrhau bod pob trawst yn syth.</i></p> <p><i>Tynhau'r trawstiau'n unol â'r lluniad peirianeg strwythurol a'r canllawiau gan gynnwys tynhau ochrol, hydred, croesgornel a cheibr.</i></p> <p><i>Sythu a thorri sedd pob bondo trawst to i gael soffit a ffasgia.</i></p> <p><i>Gosod soffit a ffasgia ar fondo to sy'n gorffen yn unol ag arweiniad y lluniad.</i></p>		
Sylwer: Rhaid i'r holl waith fod yn hygyrch ac yn weladwy er mwyn gallu arsylwi arno i'w asesu. Bydd angen cwblhau unrhyw waith nad yw'n hygyrch/gweladwy eto			
Dyddiad arfaethedig yr asesiad ymarferol		Dyddiad cyflwyno ar gyfer tystiolaeth Cynllunio	
Hyd Arfaethedig	14 awr	Hyd Go lawn	14 ½ awr
Gofynion sylfaenol o ran cynnwys asesu (MAC) i'w harddangos	<ul style="list-style-type: none"> • MAC maen prawf 7a - Gosod cydrannau'r ffics cyntaf LO3, 3.2 (Ymylon to a bondoeau) • MAC maen prawf 7c - Codi cydrannau fframwaith y strwythur LO3, 3.2 (toeau ar oleddf gyda thalcennau) • MAC maen prawf 7e - Codi cydrannau fframwaith y to LO3, 3.2 (Ymylon to a bondoeau) • MAC maen prawf 7g - Gosod a defnyddio peirianau torri a siapio cludadwy, LO3, 3.2 (Llifiau a Driliau) • MAC maen prawf 7h - Cydymffurfio ag iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle LO5 5.1, 5.2 a Symud, trin neu storio adnoddau LO7 7.1, 7.2 • MAC maen prawf 7i - Cydymffurfio ag iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle LO6 6.1 • MAC maen prawf 7j - Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol LO5 5.1, 5.2 • MAC maen prawf 7k - Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol LO4 4.1, 4.2 		

Gofynion meini prawf crefft ychwanegol i'w harddangos	Amherthnasol ar gyfer y gwaith hwn wedi'i gwblhau		
Rwy'n cadarnhau bod y tasgau hyn yn cyd-fynd â gofynion a safonau'r diwydiant a byddaf yn bodloni'r gofynion sylfaenol o ran cynnwys (MAC) fel y nodir uchod:			
Llofnod yr Asesydd	A Sesydd	Dyddiad	01/01/22
Llofnod y Dysgwr	A Huws	Dyddiad	01/01/22
Llofnod y Cyflogwr/Goruchwyliwr:	D Jones	Dyddiad	01/01/22

Cynllun asesu

Mae ffurflen cynllunio asesiad yn Atodiad 2.2.

Rhaid i'r asesydd ddefnyddio'r ddogfen hon wrth weithio gyda'r cyflogwr a'r darparwr i gynllunio pa dasgau a meini prawf fydd yn cael eu hasesu ym mhob ymweliad asesu.

Bydd y cynlluniau asesu'n cynnwys asesu elfen perfformio'r prosiect yn unig, bydd yr adrannau cynllunio a gwerthuso yn cael eu hasesu y tu allan i'r ymweliadau asesu ac felly nid oes angen eu cynnwys mewn cynlluniau asesu.

Ffurflenni asesu

Mae Nodiadau'r Asesydd a ffurflenni Naratif yr Asesydd wedi cael eu darparu yn Atodiad 2 y ddogfen hon. Rhaid defnyddio'r rhain i gofnodi penderfyniadau a gweithgareddau asesu, a'u cadw at ddibenion sicrhau ansawdd.

Marcio a Graddio

Defnyddio'r grid graddio

Ar gyfer elfennau cynllunio a gwerthuso'r prosiect, rhaid i aseswyr ddefnyddio adrannau cynllunio a gwerthuso'r grid marcio isod i roi marc o 0-2 ar gyfer pob maen prawf a restrir.

Rhaid i'r Asesydd nodi'r marc a roddir ar gyfer pob maen prawf, cyfrif cyfanswm y rhain fesul adran ac yna llenwi'r tabl cyfrifo marciau i gael marc cyffredinol. Yna, rhaid i'r Asesydd ddefnyddio'r marc cyffredinol hwn, ar yr amod bod yr holl feini prawf a aseswyd wedi'u cyflawni, i bennu gradd gyffredinol y prosiect gan ddefnyddio'r tabl graddio.

Grid Marcio

Rhaid i ddysgwyr o leiaf basio'r holl feini prawf a ddewiswyd ar gyfer yr asesiad.

Disgrifiadau graddio ar gyfer yr elfen hon:

Marc	Disgrifiad
Methu (0 marc):	Nid yw'n bodloni'r fanyleb.
Pasio (1 marc):	<p>Mae'r dysgwr yn dangos ei fod yn cynllunio'n realistig ac yn briodol, sy'n cefnogi cyflawni tasgau'r prosiect.</p> <p>Mae'r dysgwr yn cwblhau tasgau gan fodloni'r fanyleb (fel yr amlinellir ar dudalen 24), gan sicrhau ei fod yn gweithio'n ddiogel bob amser.</p> <p>Mae'r dysgwr yn gwerthuso agweddau perthnasol ar y gwaith a wnaed mewn ffordd ystyrlon.</p> <p>Enghraifft – elfen perfformio – mae'r dysgwr yn bodloni'r fanyleb ond nid yw'n poeni llawer am wastraff, cyflwyniad y gwaith na pha mor daclus yw'r gwaith a'r safle.</p>
Rhagori (2 marc):	<p>Yn ogystal â'r disgrifiad Pasio:</p> <p>Mae'r dysgwr yn dangos dull manwl o gynllunio sy'n cefnogi cyflawni tasgau prosiect yn effeithiol.</p> <p>Mae'r dysgwr yn rhagori ac yn cyflawni canlyniad manwl gywir yn ei waith. Mae'n bodloni'r fanyleb (fel yr amlinellir ar dudalen 24), gan ddangos ei fod wedi ystyried estheteg, ansawdd y gorffeniad, ac mae wedi defnyddio offer a deunyddiau'n effeithlon. Mae'r dysgwr yn gallu ymateb yn briodol ac yn effeithiol i broblemau pan fyddant yn codi.</p> <p>Mae'r dysgwr yn dangos gwerthusiad ystyriol a manwl o'i berfformiad ar draws pob agwedd ar y gwaith a wneir, gan gysylltu effaith ei berfformiad ei hun ar gyflawni gofynion (o fewn y fanyleb a'r meini prawf a bennwyd gan y dysgwr).</p> <p><i>Enghraifft – elfen perfformio – mae'r dysgwr yn cyflawni maen prawf gan ystyried gwastraff, a chymryd camau i gyfyngu ar hyn. Mae'r dysgwr yn cynhyrchu canlyniadau manwl a chywir, ac yn rhoi sylw i sicrhau bod y gwaith yn addas i'w</i></p>

gyflwyno i'r cyflogwr/cwsmer, gan gynnal man gweithio a safle taclus wrth fynd ymlaen.

Mae gridiau marcio ar gyfer elfennau Cynllunio, Ymarferol a Gwerthuso'r prosiect i'w gweld yn adran 1 yr atodiad i'r ddogfen hon.

Pennu gradd gyffredinol

Bydd yr Asesydd yn graddio'r ymgeisydd gan ddefnyddio'r tabl isod.

Rhaid i ddysgwyr gyflawni'r marc sy'n cyrraedd y trothwy pasio **drwy ennill o leiaf 1 marc ym mhob maen prawf gofynnol** ym mhob adran o'r prosiect i ennill gradd.

Mae gwybodaeth marcio a graddio ar gyfer y prosiect crefft ar gael yn Atodiad 1 y ddogfen hon, ac mae'r rhain yn defnyddio'r trothwyon graddau a nodir isod:

Ffin marciau	Gradd	Pwyntiau
41	D3	7
38	D2	6
35	D1	5
32	M2	4
29	M1	3
26	P2	2
23	P1	1

Rhaid rhoi gwybod i'r dysgwr beth yw'r radd dros dro hon cyn pen wythnos iddo gwblhau'r asesiad, a dylid rhoi gwybod iddo mai gradd dros dro yw hi. Bydd canlyniadau dros dro yn destun sicrhau ansawdd mewnol ac allanol. Bydd canlyniadau yn cael eu cyflwyno i City and Guilds a bydd gradd derfynol yr asesiad yn cael ei chyfuno â'r dulliau asesu eraill er mwyn cael gradd gyffredinol ar gyfer y cymhwyster, a fydd yn cael ei rhoi gan City & Guilds.

5. Canllawiau'r Ganolfan – Trafodaeth Broffesiynol

Pwrpas a throsolwg ar yr asesiad

Pwrpas yr asesiad Trafodaeth Broffesiynol hwn sy'n cael ei asesu'n allanol a'i amseru yw er mwyn i'r dysgwr fyfyrion ynghylch yr wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i gwblhau'r Prosiect Ymarferol, newidiadau mewn deunyddiau, offer a thechnegau yn y sector adeiladu a'r grefft o'i ddewis, ac unrhyw ddysgu y gallai ei ddefnyddio mewn cyd-destunau ehangach yn y grefft.

Yn yr asesiad hwn, bydd angen i ddysgwyr ddangos ystod o wybodaeth, dealltwriaeth a pherfformiad o'r Safonau Galwedigaethol sy'n berthnasol i'w crefft. Mae hyn yn cynnwys cynllunio ac ymgymryd â'r gwaith, bodloni meini prawf derbyn/gofynion comisiynu i safon diwydiant, a gwerthuso gwaith.

Mae'r Drafodaeth Broffesiynol yn cynnwys un rhan, wedi'i chwblhau mewn un eisteddiad wedi'i amseru, lle bydd y dysgwr yn myfyrion ar y gwaith a wnaed fel rhan o'i Brosiect Ymarferol.

Rhaid i ddysgwyr fod wedi llwyddo i gael Cadarnhad y Cyflogwr cyn iddynt allu symud ymlaen i'r asesiad Trafodaeth Broffesiynol. Mae rhagor o wybodaeth am y broses hon ar gael ar wefan Sgiliau i Gymru.

Pan fydd dysgwyr wedi ailsefyll unrhyw feini prawf o elfen ymarferol y Prosiect Ymarferol, mae modd i'r Drafodaeth Broffesiynol gyfeirio at y darn o waith a fethodd a'r darn o waith a basiodd.

Bydd yr Asesydd Allanol yn gofyn amrywiaeth o gwestiynau strwythuredig sydd wedi cael eu datblygu drwy ganllawiau gan City and Guilds. Bydd y pynciau y bydd dysgwyr yn cael eu holi amdanynt yn cael eu rhannu â nhw o fewn cyfnod addas cyn yr asesiad er mwyn i'r dysgwr fod yn gyfarwydd â nhw a gallu adolygu.

Bydd yr asesiad yn cyfrannu at y cylch dysgu gan atgyfnerthu profiad y dysgwr drwy fyfyrion a gwerthuso er mwyn hwyluso datblygu eu sgiliau crefft a sgiliau ehangach.

Mae'r asesiad hwn yn cael ei raddio ac mae'n cyfrannu 20% at radd gyffredinol y cymhwyster. Bydd y drafodaeth yn ymdrin â'r meysydd a amlinellir yn y tabl isod.

<p>Y dysgwr yn myfyrio ar y Prosiect Ymarferol: Bydd yn defnyddio tystiolaeth y prosiect i ategu'r drafodaeth broffesiynol. Beth wnaeth y dysgwr, a pham ei fod wedi gwneud hynny.</p>	
<p>Myfyrio ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol a sgiliau'r canlynol:</p>	<p>Cyfeirnod yr Uned</p>
<p>1.1 Trefnu'r adnoddau sydd eu hangen. 1.2 Gosod meini prawf llwyddo ar gyfer y dasg/tafgau 1.3 Gwneud gwaith cynllunio effeithlon 1.4 Rhesymu pam mai'r dull gweithredu sy'n cael ei gynnig yw'r un mwyaf priodol 1.5 Cydnabod goblygiadau cost a gwastraff y gwaith. 1.6 Rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwblhau'r dasg a nodi'r camau i'w cymryd i atal risgiau rhag dod yn broblemau 1.7 Nodi gofynion trosglwyddo'r gwaith.</p> <p>2.1 Adolygu pa mor briodol yw'r meini prawf llwyddo a bennwyd. 2.2 Gwerthuso'r defnydd a'r dewis o adnoddau 2.3 Gwerthuso'r allbwn gorffenedig 2.4 Gwerthuso ei berfformiad ei hun 2.5 Adolygu'r gwaith o gyflawni'r amserlenni. 2.6 Gwerthuso'r broses drosglwyddo.</p>	<p>303 – LO1, LO2</p>
<p>2.1 Sut i ddatblygu a chynnal perthynas waith gynhyrchiol 2.2 Sut i gyfathrebu'n effeithiol â chleientiaid, cyflogwyr a chydweithwyr a gyda rhanddeiliaid eraill drwy gydol prosiectau amgylchedd adeiledig.</p>	<p>302 – LO2</p>
<p>4.1 Dulliau adeiladu cyn 1919 4.2 Technegau adeiladu ar ôl 1919 ac yn y cyfnod modern 4.3 Technegau a thechnolegau adeiladu yn yr 21ain ganrif ar gyfer y grefft a ddewiswyd</p>	<p>301 – LO4</p>

Cyflwyno'r Drafodaeth Broffesiynol

Rhaid i'r asesydd allanol:

- sicrhau bod y dysgwr wedi cael briff llawn ynghylch diben y drafodaeth, yn arbennig y cynnwys a fydd yn cael sylw, a'r math o wybodaeth fydd ei hangen ar yr asesydd a sut bydd yn cael ei graddio,
- sicrhau bod gan y dysgwr unrhyw ddogfennau perthnasol wrth law cyn dechrau'r Drafodaeth Broffesiynol,
- sicrhau bod unrhyw ofynion ychwanegol y tynnodd y ganolfan sylw atynt yn cael eu hystyried yn unol â'r polisi Addasiadau Rhesymol
- gwneud penderfyniadau asesu cyson a di-duedd yn defnyddio'r pwyntiau trafod a baratowyd a meini prawf y cymhwyster, i sicrhau cysondeb er mwyn gallu cymharu'r penderfyniadau asesu dros amser
- ceisio tawelu nerfau'r dysgwr gan egluro fformat, amseru a phwrpas y ffurflenni cofnodi.

Ar ben hynny, gellir annog y dysgwr i fyfyrto yn y drafodaeth ynghylch prosiectau mae'n gweithio arnynt ar hyn o bryd neu sydd ar y gweill i'w datblygu.

Yn ystod y Draffodaeth Broffesiynol

Rhaid i'r asesydd allanol:

- yn ddelfrydol, yn y man cyntaf, ymdrin â phwyntiau y mae'r dysgwr yn debygol o fod yn hyderus o'u hateb, cyn symud at bethau mwy heriol. Bydd hyn yn creu dilyniant ac yn cynorthwyo i ddyrannu marc a mesur gallu'r dysgwr
- gofyn cwestiynau agored yn dechrau gyda 'pam', 'beth', 'ble' a 'pryd' i roi cyfle i bob dysgwr ddangos eu cyflawniad
- gofyn cwestiynau dilynol gan roi cyfle i'r dysgwr ateb ac ymdrin â'r pwynt trafod yn llawn. Rhaid i'r cwestiynau fod yn ystyriol, yn berthnasol ac wedi'u gosod ar y lefel briodol.
- trafod gweithgareddau'r dysgwr gan chwilio am dystiolaeth o wybodaeth, gweithdrefnau a phrosesau penodol, galluoedd dadansoddol a gwneud penderfyniadau, a'u cymhwysedd. Rhaid i'r cwestiynau fod yn broses raddol o 'drosglwyddo' i'r dysgwr. Byddech yn disgwyl i'r dysgwr fod yn arwain y draffodaeth ar ôl y briff / cwestiynau agoriadol cychwynnol
- adnabod pynciau yn yr atebion y gellir eu trafod ymhellach nes ymlaen yn y draffodaeth.

Dylai'r draffodaeth fod yn berthnasol i'r pwnc perthnasol bob amser. Cyn gynted ag y gellir barnu hynny, rhaid i'r draffodaeth symud ymlaen i'r pwnc nesaf. Pan fydd yr holl bwyntiau wedi eu trafod, rhaid dod â'r draffodaeth i ben. Os yw atebion y dysgwr yn crwydro oddi ar y pwnc, dylid tywys y dysgwr yn ôl at y pwnc. Dylid cadw cofnod cywir o amser dechrau a hyd y Draffodaeth Broffesiynol. Ar gyfartaledd bydd 4.5 munud i bob maes trafod.

Beth i'w osgoi yn ystod y Draffodaeth Broffesiynol:

- gofyn un math o gwestiwn drwy'r draffodaeth.
- ateb y cwestiwn eich hun yn lle ehangu arno i gael ymateb.
- gorlwytho'r dysgwr gyda gormod o gwestiynau, fel nad oes ganddynt amser i feddwl nac ateb yn llawn.
- diystyru atebion.
- treulio gormod o amser ar un pwynt trafod fel bod llai o amser i draffod pwyntiau eraill.
- gofyn cwestiynau cymhleth yn rhy fuan yn y draffodaeth.
- dylid osgoi gofyn cwestiynau caeedig oni bai fod angen atebion 'ie' neu 'na' penodol. Gall cwestiynau caeedig wneud i ddysgwyr 'rewi' neu 'gau lawr' a byddai hyn yn fwy tebygol dan bwysau arholiadau.

Marcio a Graddio

Mae'r asesiad hwn yn cael ei raddio ac mae'n cyfrannu 20% at radd gyffredinol y cymhwyster.

Bydd asesydd yn defnyddio'r grid marcio isod i roi marc o 0-3 ar sail perfformiad yr ymgeisydd yn erbyn y meini prawf marcio a ddarparwyd.

Mae ffactor graddio x2 wedi cael ei ddefnyddio'r gyda'r disgrifiad marcio cyntaf sydd i'w gyflawni, er mwyn adlewyrchu'r ystod ehangach o ddarpariaeth yn y disgrifiad hwn.

Rhaid i ddysgwyr gael **o leiaf 1 marc ar gyfer pob disgrifiad marcio**, gan gyflawni cyfanswm o 3 o leiaf i basio.

Drwy hyfforddiant sy'n cael ei arwain gan City and Guilds a thrwy safoni, bydd asesydd yn marcio'n gyson dros amser.

Pennir gradd yr asesiad drwy roi cyfanswm y marciau asesu a roddir a throsi hyn yn radd asesiad gyffredinol ar gyfer yr asesiad hwn gan ddefnyddio'r tabl isod:

Ffin marciau	Gradd	Pwyntiau
9	D3	7
8	D2	6
7	D1	5
6	M2	4
5	M1	3
4	P2	2
3	P1	1

Grid Marcio

Bydd aseswyr yn defnyddio'r grid isod i asesu perfformiad dysgwyr yn y Drafodaeth Broffesiynol, gan ddyfarnu marciau ar sail a yw lefel yr ymateb a ddarperir yn bodloni'r disgrifiadau marcio a ddarparwyd.

Enw'r dysgwr:		
Dyddiad asesu:		
Cynllunio a Gwerthuso - Disgrifiadau marcio		Marciau a enillwyd
<p>Dangosodd y dysgwr y canlynol</p> <p>Lefel syifaenol o werthuso ar y tasgau a gyflawnwyd. Mae'r dysgwr wedi myfyrio'n fyr ynghylch defnyddio gwybodaeth, gosod amserlenni a threfnu gweithgareddau ac ynghylch sut roedd wedi cyflawni'r tasgau, drwy ei elfennau cynllunio a pharatoi i'r perfformio – gyda rhai meysydd o gryfder personol a heriau'n cael eu crybwyll yn fyr. Mae'r dysgwr yn gwneud cysylltiadau cyfyngedig rhwng cryfderau a heriau, gyda'r deilliannau ansawdd terfynol yn deillio o'r dasg/tasgau.</p> <p>Mae'r dysgwr yn gwneud cysylltiadau cyfyngedig â'r wybodaeth, y dogfennau a'r cyfathrebu wrth drosglwyddo i'r defnyddiwr. Roedd y dysgwr wedi nodi nifer o feini prawf llwyddo priodol, ond cyfyngedig oedd y manylion. Rhoddwyd cysylltiad byr wrth ddewis adnoddau, ond cyfyngedig oedd y cysylltiadau a wnaed o ran effaith y dewis ar gyfer cwblhau'r tasgau'n effeithlon. Mae'r dysgwr wedi dangos rhywfaint o ystyriaeth ar gyfer yr allbwn gorffenedig, gan ystyried ei fod yn addas i'r diben, yn ddiogel ac yn bodloni'r fanyleb (fel yr amlinellir ar dudalen 24), ond mae'r rhain yn cael eu darparu'n bennaf fel datganiadau generig nad ydynt yn rhoi llawer o ystyriaeth o safbwynt y dysgwr ei hun.</p> <p>neu</p> <p>Dangosodd y dysgwr y canlynol</p> <p>lefel ystyriol o werthuso ar y tasgau a gyflawnwyd. Roedd y dysgwr wedi myfyrio'n bendant ynghylch defnyddio gwybodaeth, gosod amserlenni a threfnu gweithgareddau ac ynghylch sut roedd wedi cyflawni'r tasgau, drwy ei elfennau cynllunio a pharatoi ac i'r perfformio – gyda rhai meysydd o gryfder personol a heriau'n cael eu nodi, gydag ymgais i gysylltu'r meysydd hyn â deilliannau o ansawdd. Mae'r dysgwr yn cysylltu'r wybodaeth, y dogfennau a'r cyfathrebu wrth drosglwyddo i'r defnyddiwr. Mae'r cysylltiadau a nodwyd yn cynnwys manylion ac yn dangos ymateb ystyriol gan y dysgwr i drosglwyddo'r hyn mae'n ei ddeall am bwysigrwydd trosglwyddo. Roedd y dysgwr wedi rhoi manylion nifer o feini prawf llwyddo priodol, gyda manylion cryno wedi'u nodi. Rhoddir amrywiaeth o adnoddau a ddewiswyd, a chaiff cysylltiadau clir eu gwneud ar effaith y dewis er mwyn cwblhau'r tasgau'n effeithlon. Mae'r dysgwr wedi ystyried yr allbwn gorffenedig, gan ystyried ei fod yn addas i'r diben, yn ddiogel ac yn bodloni'r fanyleb (fel yr amlinellir ar dudalen 24), gan ddarparu dull gweithredu cydlynol sy'n dangos sut bydd y dysgwr yn ceisio rheoli'r meysydd hyn wrth iddo ddatblygu ei yrfa ymhellach yn y sector.</p>		<p>1</p> <p>2</p>

<p>neu Dangosodd y dysgwr y canlynol</p> <p>lefel gynhwysfawr o werthuso ar y tasgau a gyflawnwyd. Mae'r dysgwr yn dangos lefel gydlynol a chyflawn o fyfyrion ynghylch defnyddio gwybodaeth, gosod amserlenni a threfnu gweithgareddau ac ynghylch sut roedd wedi cyflawni'r tasgau, drwy ei elfennau cynllunio a pharatoi i'r perfformio – gydag amrywiaeth o gryfderau a heriau personol yn cael eu gwerthuso a synergedd clir wedi'i nodi rhwng y rhain a deilliannau ansawdd terfynol y dasg/tasgau. Mae'r dysgwr yn amlinellu'n gryno sut mae'r wybodaeth, y dogfennau a'r cyfathrebu yn effeithio ar drosglwyddo i'r defnyddiwr a sut mae hyn wedi dylanwadu ar ei sgiliau a'i ffyrdd o weithio. Mae'r cysylltiadau hyn yn cael eu darparu'n fanwl ac mae'n egluro'n glir sut maen nhw wedi cael eu hystyried a'r rhesymau pam bydd yn mynd ati i ddatblygu ffyrdd o ddelio â'r defnyddiwr yn y dyfodol. Roedd y dysgwr wedi mynd ati'n gydlynol i drin a thrafod amrywiaeth o feini prawf llwyddo gwahanol, a dangoswyd ei fod wedi datblygu dealltwriaeth o'u pwysigrwydd. Trafodir ystod eang o adnoddau a ddewiswyd, ac mae'r dysgwr yn dangos ei fod wedi datblygu dealltwriaeth o'r effaith ar gwblhau'r dasg a phwysigrwydd hyn. Mae'r dysgwr yn dangos dealltwriaeth amlwg o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar yr allbwn gorffenedig, gan ystyried ei fod yn addas i'r diben, yn ddiogel ac yn bodloni'r fanyleb (fel yr amlinellir ar dudalen 24). Mae' darparu dull gweithredu strwythuredig ac ystyriol sy'n dangos sut bydd yn rheoli'r meysydd hyn wrth iddo ddatblygu ei yrfa ymhellach yn y sector.</p>	3
<p>Marc a enillwyd x2</p>	/6
<p>Cyfathrebu ac ystyried cyd-destunau ehangach - Disgrifiadau marcio</p>	<p>Marciau a enillwyd</p>
<p>Dangosodd y dysgwr y canlynol</p> <p>myfyrion ar y cysylltiadau gwaith mae wedi'u datblygu a rôl cyfathrebu effeithiol o ran sicrhau bod y cysylltiadau hyn yn gynhyrchiol. Mae'r dysgwr yn gwneud cysylltiadau cyfyngedig rhwng y tasgau a gwblhawyd a chyd-destunau gwahanol (e.e. adeiladau o wahanol gyfnodau, yr offer sydd ar gael, technolegau gwahanol), gan nodi sut byddai'n trosglwyddo ac yn defnyddio'r hyn mae wedi'i ddysgu yn y cyd-destunau gwahanol.</p>	1
<p>neu Dangosodd y dysgwr y canlynol</p> <p>lefel ystyriol o fyfyrion ynghylch sut mae ei ddull o gyfathrebu wedi ei alluogi i ddatblygu ac i gynnal perthynas waith gynhyrchiol gydag amrywiaeth o randdeiliaid. Mae'r dysgwr yn cysylltu'r dasg/tasgau a gwblhawyd ag amrywiaeth o gyd-destunau ychwanegol (e.e. adeiladau o wahanol gyfnodau, yr offer sydd ar gael, technolegau gwahanol). Mae'r cysylltiadau a nodwyd yn cynnwys manylion ac yn dangos ymateb ystyriol gan y dysgwr sy'n ymwneud â sut byddai'n trosglwyddo'r hyn mae wedi'i ddysgu drwy ei dasgau a defnyddio hynny'n rhesymegol mewn cyd-destunau gwahanol.</p>	2

<p>Dangosodd y dysgwr y canlynol</p> <p>gwerthusiad o sut mae ei ddull o gyfathrebu wedi ei alluogi i ddatblygu ac i gynnal perthynas waith gynhyrchiol gydag amrywiaeth o randdeiliaid. Mae'r dysgwr yn dangos dealltwriaeth o amrywiaeth o gyd-destunau ac yn darparu ymatebion cydlynol a manwl i sut y byddai'n delio â gwahanol gyd-destunau (e.e. adeiladau o wahanol gyfnodau, yr offer sydd ar gael, technolegau gwahanol).</p>	3
<p>Marc a enillwyd</p>	/3
<p>Cyfanswm marciau</p>	/9

Amodau asesu

Rhaid i'r drafodaeth ddigwydd mewn amgylchedd heb unrhyw beth i aflonyddu arno, ac yn ddelfrydol yn rhywle cefnogol a chyfarwydd i'r dysgwr.

Rheoli'r asesiad

Mae'r Drafodaeth Broffesiynol yn asesiad wedi'i amseru a'i reoli ac felly rhaid i'r dysgwr, yr asesydd a'r ganolfan baratoi a chynllunio ar ei chyfer. Bydd canllawiau ar yr asesiad hwn ar gael i ganolfannau a dysgwyr i sicrhau eu bod yn deall ac yn cyflawni eu gwahanol ddyletswyddau ac ymrwymadau'n gywir ar gyfer yr asesiad hwn.

Amser a ganiateir

Rhoddir **40 munud** ar gyfer y Drafodaeth Broffesiynol a gellir ychwanegu hyd at 5 munud fel bo'r dysgwr yn gallu cwblhau ei ateb terfynol.

Lle mae angen addasiadau rhesymol ar gyfer yr asesiad (i ddysgwyr gyda gofynion penodol) neu wasanaeth cyfieithu, bydd yr amser ychwanegol yn cael ei gytuno a'i hysbysu cyn yr asesiad yn unol â pholisi City and Guilds ar addasiadau rhesymol.

Canllawiau a dogfennau

Bydd gan yr asesiad hwn y canllawiau cysylltiedig a ganlyn:

- **Cyfarwyddiadau'r dysgwr:** bydd y rhain ar gael yn Adran 2 y ddogfen hon i gynorthwyo'r dysgwr gyda'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth berthnasol o'r asesiad. **Rhaid rhannu'r cyfarwyddiadau hyn gyda'r dysgwr o leiaf 5 diwrnod cyn yr asesiad er mwyn rhoi amser i ddod yn gyfarwydd â'r pynciau y bydd yn cael ei holi arnynt.** Nod y cyfarwyddiadau yw cynorthwyo'r dysgwr i fod yn gwbl barod am yr asesiad. Gellir darllen y ddogfen gyfarwyddiadau ar y cyd â briff y dysgwr i fagu hyder y dysgwr yn barod am y briff llafar terfynol gan yr asesydd allanol cyn yr asesiad. Bydd yn egluro hawl y dysgwr i apelio penderfyniadau'r asesiad.
- **Canllawiau'r ganolfan:** Mae'r canllawiau hyn yn y pecyn asesu hwn gan roi'r wybodaeth berthnasol i'r ganolfan i gefnogi'r asesiad. Mae recordiadau enghreifftiol ar gael yn Atodiad 4 i hwyluso'r gwaith paratoi ar gyfer yr asesiad ac i greu trywydd archwilio i'r aseswyr allanol. Byddant yn rhoi canllawiau i aseswyr allanol ar gyfer datblygu amrediad o gwestiynau ffurfiol.
- **Prosiectau'r dysgwr:** i'w rhoi i'r asesydd allanol cyn y drafodaeth. Mae gan ddysgwyr hawl i gael deunyddiau eu prosiect gyda nhw er mwyn gallu cyfeirio atynt yn y Drafodaeth Broffesiynol.

Paratoi a chynllunio ar gyfer y Drafodaeth Broffesiynol

Rhaid darparu tystiolaeth y prosiect i City and Guilds, drwy ein porth ar-lein electronig, o leiaf **bythefnos cyn** dyddiad y Drafodaeth Broffesiynol er mwyn rhoi digon o amser i baratoi.

Cyn yr asesiad, bydd y dysgwr yn cael rhybudd addas, o ddim llai na **phum diwrnod gwaith**, i ddarparu amser paratoi (er enghraifft, gwneud trefniadau teithio os oes angen). Rhaid i'r asesydd

allanol gynllunio'r Drafodaeth Broffesiynol ac adolygu'r prosiect, cyn ei chynnal. Rhaid rhoi gwybod i ddysgwyr bod ganddynt hawl i apelio penderfyniad yr asesiad.

Bydd y Drafodaeth Broffesiynol yn digwydd fel sesiwn un-i-un rhwng yr asesydd allanol a'r dysgwr yn unig. Gall staff ychwanegol fod yn bresennol mewn amgylchiadau fel sicrhau ansawdd, addasiadau rhesymol neu ar gyfer cyfieithu, ond bydd hyn yn cael ei gytuno ymlaen llaw. Cynhelir yr asesiad wyneb yn wyneb neu o bell. Rhaid i ddysgwyr fod yn gwbl ymwybodol o beth fydd trefniadau'r asesu ar gyfer y cymhwyster o'r dechrau.

Arweiniad: *Argymhellir yn gryf bod dysgwyr yn dod yn gyfarwydd â chael eu recordio/cofnodi yn rheolaidd (ee fel rhan o asesiad ffurfiannol) fel eu bod yn dod i arfer â hynny. Bydd hyn yn helpu i leddfu nerfau'r dysgwr yn yr asesiad ac yn cynorthwyo i baratoi ymlaen llaw.*

Cwestiynau a phwyntiau trafod

Bydd y Drafodaeth Broffesiynol yn cynnwys pwyntiau trafod wedi'u paratoi ymlaen llaw. Bydd hyn yn hwyluso ffocws a chysondeb. Bydd hyn yn gwella cywirdeb a manylder y graddio'n sylweddol. Lle bo'n berthnasol, rhaid i'r rhain fod yng nghyd-destun y prosiect. Yn gyffredinol, rhaid i'r cwestiynau fod yn ddigon diddorol i'r dysgwr gan hybu a chynnal ei ddiddordeb.

Mae lle wedi'i ddarparu ar y ffurflenni cofnodi ar gyfer y pwyntiau trafod i'w mapio i uned y cymhwyster.

Mewn llawer o achosion, ni fydd cwestiynau agoriadol yr asesydd allanol yn archwilio gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwr yn llawn. Efallai y bydd angen cwestiynau dilynol i chwilio am ragor o dystiolaeth. Fodd bynnag, ni chaiff y cwestiynau arwain y dysgwr.

Sut y mae'r prosiect yn goleuo'r drafodaeth

Mae'r prosiect yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer y Drafodaeth Broffesiynol; felly, mae'n rhaid iddo fod yn barod ac ar gael yn ystod yr asesiad er mwyn i'r dysgwr allu dod o hyd i unrhyw dystiolaeth benodol fel cynlluniau neu ddata. Argymhellir y dylai'r prosiect gael tabl cynnwys a'i osod mewn adrannau, i hwyluso perfformiad y dysgwr yn ystod yr asesiad hwn.

Er bod y Prosiect Ymarferol yn sail i'r Drafodaeth Broffesiynol, mae'r asesiad hwn yn cael ei raddio ar wahân felly ni ddylai'r asesydd allanol (pan fo'n berthnasol) ddwbl-gosbi gwaith prosiect y dysgwr drwy'r asesiad Trafodaeth Broffesiynol. Yn hytrach, mae'r Drafodaeth Broffesiynol yn gyfle i'r dysgwr ddangos sut mae wedi dod yn ei flaen ers dechrau'r Prosiect Ymarferol, gwerthuso cryfderau a gwendidau a rhoi cyd-destun ar gyfer pwyntiau'r drafodaeth.

Gall y Drafodaeth Broffesiynol hefyd brofi dilysrwydd a dibynadwyedd dystiolaeth prosiect y dysgwr.

Pan fydd dysgwr wedi methu elfen o'r Prosiect Ymarferol ac wedi gorfod ailsefyll neu ailgyflwyno gwaith, gall y Drafodaeth Broffesiynol gyfeirio at y dystiolaeth a fethwyd a'r ailsefyll/ailgyflwyno. Bydd y naill a'r llall yn rhoi cyfle i'r dysgwr fyfyrto a gwerthuso, a dylid defnyddio'r rhain i gefnogi'r drafodaeth.

Cadarnhad y Cyflogwr

Rhaid i ddysgwyr fod wedi llwyddo i gael Cadarnhad y Cyflogwr cyn iddynt allu symud ymlaen i'r Drafodaeth Broffesiynol. Mae rhagor o wybodaeth am y broses hon a'r dogfennau sydd eu hangen i gwblhau hyn ar gael ar wefan Sgiliau i Gymru.

Deunyddiau

Caniateir y deunyddiau canlynol yn ystod yr asesiad Trafodaeth Broffesiynol:

- bydd angen cynllun prosiect a dogfennau gwerthuso'r dysgwr.
- unrhyw ddogfennau perthnasol fel cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a chynlluniau/lluniadau
- dyfais i recordio'r drafodaeth yn gywir.

Rhaid cyfeirio tystiolaeth at yr uned a'r meini prawf i ddarparu ar gyfer y trywydd archwilio. Mae angen sefydlu'r trefniadau hyn ymlaen llaw.

Gofynion Tystiolaeth

Trywydd Archwilio

Mae angen recordio'r Drafodaeth Broffesiynol (ddim yn weledol) a rhaid ei chofnodi mewn ffordd ddiogel sy'n cydymffurfio â GDPR. Mae angen sefydlu'r trefniadau hyn ymlaen llaw.

Rhaid cadw pob recordiad yn iawn ac yn ddiogel. Hefyd, rhaid i'r dysgwr lofnodi a dyddio'r ffurflenni sy'n cyd-fynd â'r recordiad er mwyn datgan dilysrwydd. Bydd ffurflenni wedi'u cwblhau, sy'n cyd-fynd â'r recordiad, ar gael i'w hadolygu a'u samplu fel rhan o waith sicrhau ansawdd allanol.

Bydd ffurflenni cofnodi yn cael eu rhoi i'r asesydd allanol i roi adborth ac i ddyrannu gradd dros dro. Rhaid rhoi gwybod i'r dysgwr beth yw'r radd dros dro hon cyn pen wythnos iddo gwblhau'r asesiad, a dylid rhoi gwybod iddo mai gradd dros dro yw hi. Bydd canlyniadau dros dro yn destun sicrhau ansawdd. Bydd canlyniadau yn cael eu cyflwyno i City and Guilds a bydd gradd derfynol yr asesiad yn cael ei chyfuno â'r dulliau asesu eraill er mwyn cael gradd gyffredinol ar gyfer y cymhwyster, a fydd yn cael ei rhoi gan City and Guilds.

Ailsefyll/ailgyflwyno

Os bydd dysgwyr yn methu â llwyddo yn yr asesiad, caniateir ei ailsefyll a bydd yn rhaid ailsefyll yr holl Drafodaeth Broffesiynol.

Bydd canlyniadau asesu'r Drafodaeth Broffesiynol ar gael drwy Walled Garden.

Os bydd dysgwyr yn methu, rhaid trefnu i ailsefyll y Drafodaeth Broffesiynol drwy Walled Garden.

Gall dysgwyr gyflawni'r ystod lawn o farciau a graddau sydd ar gael wrth ailsefyll.

Os nad yw dysgwr yn bodloni'r meini prawf marcio gofynnol, rhaid i'r ganolfan weithio gyda'r dysgwr i roi sylw i'r meini prawf a fethwyd a cheisio canfod cyfleoedd er mwyn ei gefnogi i baratoi i gyrraedd y safon sy'n ofynnol.

Os nad yw dysgwyr yn hapus â deilliannau eu hasesiad, rhaid iddynt gael gwybod am eu hawl i apelio.

Rhaid i ganolfannau gofnodi unrhyw gamau a gymerir a/neu unrhyw gefnogaeth ychwanegol a roddir i'r dysgwr.

6. Cyfuno graddau

Y graddau ar gyfer y cymhwyster hwn yw **Pasio, Teilyngdod, Rhagoriaeth**. Os bydd dysgwr yn methu, ni fydd yn cael tystysgrif.

City and Guilds sy'n cwblhau'r broses o gyfuno graddau. Mae'r wybodaeth isod yn egluro sut mae'r broses hon yn gweithio ac mae'n cefnogi dealltwriaeth o sut mae gradd gyffredinol y cymhwyster yn cael ei chyfrifo.

Mae gradd gyffredinol y cymhwyster yn seiliedig ar gyfuno cyflawniad y dysgwr yn yr asesiadau gorfodol sydd wedi'u graddio (yr Asesiadau Ar-sgrin, y Prosiect Ymarferol a'r Drafodaeth Broffesiynol).

Rhaid cael o leiaf gradd P1 yn yr asesiad er mwyn gallu dyfarnu'r cymhwyster. Ni ddyfernir gradd cymhwyster i ymgeiswyr sy'n methu â chyrraedd gradd P1 y safon ofynnol i lwyddo yn yr asesiad(au), ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif cymhwyster.

Dull asesu graddfa % cyfraniad

Mae'r tabl isod yn dangos % cyfraniad pob asesiad at radd gyffredinol y cymhwyster.

Asesiad ar-sgrin	20%
Prosiect Ymarferol	60%
Trafodaeth Broffesiynol	20%

Cyfrifo gwerth pwyntiau ar gyfer asesiadau

Mae'r marc mae ymgeisydd yn ei gael ym mhob asesiad yn cael ei drosi'n bwyntiau. Mae'r pwyntiau hyn yn cyfateb i radd ar raddfa 7 pwynt yn yr asesiad hwnnw. At ddibenion cyfuno, bydd y pwyntiau wedyn yn cael eu llusoi â'r pwysoliad cyffredinol a roddir i'r asesiad hwnnw. Bydd y pwyntiau wedi'u pwysoli yn cael eu hychwanegu at ei gilydd a'u trosi'n radd cymhwyster.

Bydd amrywiaeth o bwyntiau o fewn y ffiniau Pasio, Teilyngdod a Rhagoriaeth ar gael i ymgeiswyr er mwyn adlewyrchu perfformiad o fewn ffiniau'r radd. Amlinellir y pwyntiau sydd ar gael ar gyfer pob asesiad a'r radd adlewyrchol o dan yr adrannau asesu unigol.

Enghraifft

Mae'r canlynol yn amlinellu enghraifft o sut mae'r model cyfuno'n gweithio'n ymarferol.

Mae dysgwr yn cyflawni'r canlynol ym mhob un o elfennau'r asesiad:

	Marciau yn yr asesiad	Gradd Asesu	Pwyntiau cyffredinol
Asesiad ar-sgrin 1	32	P2	2
Asesiad ar-sgrin 2	34	M1	3
Prosiect Ymarferol	36	D1	5
Trafodaeth Broffesiynol	6	M2	4

Marcio a Graddio Aseidiadau

Gan ddefnyddio'r tabl isod, gallwn droshaenu'r graddau a enillodd yr ymgeisydd ar gyfer pob asesiad a chael pwyntiau wedi'u pwysoli a fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer y radd gyffredinol.

Gradd Asesu	Pwyntiau wedi'u Pwysoli			
	Prawf Ar-sgrin 1	Prawf Ar-sgrin 2	Prosiect Ymarferol	Trafodaeth Broffesiynol
D3	0.7	0.7	4.2	1.4
D2	0.6	0.6	3.6	1.2
D1	0.5	0.5	3	1
M2	0.4	0.4	2.4	0.8
M1	0.3	0.3	1.8	0.6
P2	0.2	0.2	1.2	0.4
P1	0.1	0.1	0.6	0.2
Methu	0	0	0	0

- Prawf 1 = 0.2
- Prawf 2 = 0.3
- Prosiect Ymarferol = 3
- Trafodaeth Broffesiynol = 0.8

Gradd gyffredinol y cymhwyster

Yna caiff pwyntiau wedi'u pwysoli o bob asesiad eu cyfuno i roi cyfanswm sgôr pwyntiau wedi'u pwysoli ar gyfer y cymhwyster, ac mae'r tabl hwn yn nodi sut mae hyn wedyn yn trosi'n radd gyffredinol y cymhwyster:

Cyfanswm y sgôr pwyntiau wedi'u pwysoli $0.2 + 0.3 + 3 + 0.8 = 4.3$

Cyfanswm y Pwyntiau wedi'u Pwysoli	Gradd
7	Rhagoriaeth
6	Rhagoriaeth
5	Rhagoriaeth
4	Teilyngdod
3	Teilyngdod
2	Pasio
1	Pasio

Byddai gradd gyffredinol y cymhwyster, gan ddefnyddio'r raddfa graddau a ddangosir uchod, yn cael ei dyfarnu fel **Teilyngdod**.

Cyflwyno canlyniadau a chyfrifo graddau

Mae gofyn i'r dysgwr lwyddo ym mhob asesiad er mwyn cael gradd gyffredinol am basio'r cymhwyster. Rhaid cyflwyno graddau am y prosiect ymarferol a'r Drafodaeth Broffesiynol i City and Guilds.

Mae'r tabl isod yn nodi beth mae'n rhaid ei gyflawni ar gyfer pob asesiad, a sut bydd y canlyniadau'n cael eu cyflwyno.

Asesiad	Beth mae angen ei wneud er mwyn cyflawni	Cyflwyno'r canlyniad
Asesiad ar-sgrin	Bydd y dysgwr yn cwblhau Asesiad ar-sgrin yn defnyddio platfform City and Guilds. Caiff asesiadau eu marcio'n awtomatig, a bydd gradd yn cael ei rhoi.	Asesiad yn cael ei awto-farcio a'r canlyniad yn cael ei roi gan City and Guilds.
Prosiect Ymarferol	Mae'r ganolfan yn rhoi marciau am adrannau cynllunio, perfformio a gwerthuso'r Prosiect Ymarferol gan ddefnyddio'r meini prawf marcio i asesu perfformiad yn y prosiect drwyddo draw. Mae'r ganolfan yn defnyddio marc cyffredinol y prosiect i nodi'r radd a enillwyd gan ddefnyddio'r tabl "Penderfynu ar y radd gyffredinol".	Y ganolfan yn cadarnhau ac yn cyflwyno'r gradd pasio ar Walled Garden
Trafodaeth Broffesiynol	Bydd yr Asesydd Allanol yn asesu dysgwyr yn erbyn y meini prawf a restrir yn erbyn y Drafodaeth Broffesiynol ac yn gwneud penderfyniad asesu. Cwblhau pob rhan o'r Drafodaeth Broffesiynol yn llwyddiannus yn unol â'r nifer sylfaenol o farciau sydd eu hangen yn adrannau 1 a 2 y Drafodaeth Broffesiynol.	Bydd yr asesydd allanol yn cadarnhau'r radd. Bydd hon wedyn ar gael i'r ganolfan drwy Walled Garden.

Bydd City and Guilds yn cyfuno'r graddau ac yn dyfarnu gradd gyffredinol derfynol ar gyfer y cymhwyster.

Bydd canlyniad terfynol y dysgwr yn cael ei hysbysu ar ôl cwblhau proses o sicrhau ansawdd allanol ac o fewn wyth wythnos i'r dyddiad y bydd y ganolfan yn cyflwyno canlyniadau terfynol y Prosiect Ymarferol a'r Drafodaeth Broffesiynol (ac ar ôl cwblhau'r Asesiad ar-sgrin yn llwyddiannus) i City & Guilds.

Atodiadau

1. Gofynion Sylfaenol o ran Cynnwys Asesu (MAC) a'r Grid Marcio
2. Ffurflenni cofnodi Prosiect Ymarferol
 - 2.1 Dogfennau cynllunio tasgau
 - 2.2 Dogfennau cynllunio asesiad
 - 2.3 Ffurflenni cofnodi asesiad
3. Manylebau asesiad ar-sgrin
4. Ffurflenni cofnodi'r Drafodaeth Broffesiynol

1. Prosiect Ymarferol – Perfformio – Gofynion sylfaenol o ran cynnwys asesu (MAC)

Mae'r tabl isod yn cynnwys y MAC ar gyfer y Prosiect Ymarferol.

Yn yr adran hon, pan gyfeirir at “cyfarwyddiadau gweithio a roddwyd” mae hyn yn berthnasol i'r fanyleb a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwaith a gwblhawyd (mae manylion am yr hyn y gall y fanyleb hon fod ar gael ar dudalen 24 y ddogfen hon).

Rhaid i dasg y prosiect gael ei chyflawni dros oddeutu 70 awr – meini prawf gorfodol (crefft ac lechyd a Diogelwch) a meini prawf ychwanegol.

Rhaid arsylwi dros o leiaf dri ymweliad asesu, rhaid arsylwi'n uniongyrchol ym mhob ymweliad er mwyn cadw at y meini prawf a nodwyd yng nghynllun eu hymweliad asesu.

Enw'r Dysgwr:	
Enw'r Asesydd:	

Grid Marcio Plastro Soled – Cynllunio MAC

	Opsiynau Graddio	Marciau a Ddyfarnwyd
Maen prawf 1		<i>Dim ond yn unol â'r cynllun arsylwi y dylid asesu ymgeiswyr</i>
Llunio rhestr adnoddau sy'n nodi'r offer, y cyfarpar a'r deunyddiau sydd eu hangen i gwblhau'r dasg.	Methu = 0 Pasio = 1 Rhagori = 2	
Maen prawf 2		
Llunio amserlen waith a datganiad dull i gynllunio trefn/camau'r gwaith a'r dulliau a ddefnyddir i gwblhau'r dasg, gan esbonio pam mai dyma'r ffordd fwyaf priodol o ddelio â'r gwaith. Cydnabod goblygiadau cost a gwastraff a sut mae'r rhain wedi cael eu hystyried.	Methu = 0 Pasio = 1 Rhagori = 2	
Maen prawf 3		
Llunio asesiad risg i ganfod unrhyw risgiau posibl i iechyd a diogelwch, a nodi risgiau i gyflawni gwaith yn brydlon ac i'r ansawdd a ddisgwylir. Mae'r dysgwr yn nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i atal risgiau rhag dod yn broblemau.	Methu = 0 Pasio = 1 Rhagori = 2	
Maen prawf 4		
Pennu meini prawf llwyddo ar gyfer y dasg; adnabod meini prawf llwyddo priodol ar gyfer y dasg y mae modd eu cyflawni a'u mesur, gan gynnwys y cerrig milltir llai sy'n nodi gweithgareddau allweddol, yr adnoddau a ddefnyddir, ac ansawdd y gorffeniad ac ati sy'n cefnogi'r dysgwr i lwyddo i gwblhau'r dasg a diwallu'r fanyleb.	Methu = 0 Pasio = 1 Rhagori = 2	
Maen prawf 5		

<p>Cynllunio dulliau ac arddulliau cyfathrebu i'w defnyddio wrth gyfathrebu ag amrywiaeth o randdeiliaid. Nodi'r wybodaeth y byddai angen ei chynnwys wrth drosglwyddo gwaith i grefft ddilynol a/neu i gwsmer a'r fformat mwyaf priodol i gyfleu'r wybodaeth hon.</p>	<p>Methu = 0 Pasio = 1 Rhagori = 2</p>	
<p>Maen prawf 6</p>		
<p>Nodi peryglon a risgiau.</p>	<p>Methu = 0 Pasio = 1 Rhagori = 2</p>	
<p style="text-align: right;">Marc cyffredinol (Uchafswm 12 marc)</p>		

Grid Marcio Plastro Soled – Ymarferol MAC

Rhaid cyflawni 4 maen prawf o'r 7 maen prawf a restrir isod	Opsynau Graddio	Marciau a Ddyfarnwyd
Maen prawf 7a		<i>Rhaid asesu ymgeiswyr yn unol â'u cynllun arsylwi</i>
<p>Paratoi arwynebau cefndir i dderbyn systemau plastro mewnol un a dwy gôt yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir mewn perthynas â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • waliau plaen • Waliau gydag agoriadau – ciliau, silffoedd ffenestri a soffitiau (drysau a/neu ffenestri) • Waliau â gwrthdroeon • Nenfydau plaen • Trawstiau a phieri. 	<p>Methu = 0 Pasio = 1 Rhagori = 2</p>	
Maen prawf 7b		
<p>Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ac adnoddau mecanyddol i baratoi deunyddiau wedi'u cyfuno ymlaen llaw, gosod a gorffen gwaith plastr un, dwy a thair côt mewnol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir;</p> <ul style="list-style-type: none"> • waliau plaen • waliau gydag agoriadau – ciliau • silffoedd a soffitiau (e.e. drysau a/neu ffenestri) • waliau â chilfachau • nenfydau plaen • trawstiau a phieri. 	<p>Methu = 0 Pasio = 1 Rhagori = 2</p>	

Maen prawf 7c		
<p>Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy, cyfarpar mecanyddol ac adnoddau i gynhyrchu côt orffen wyneb plaen ar gyfer waliau allanol ynghy ag o leiaf un o'r gorffeniadau canlynol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir;</p> <ul style="list-style-type: none"> • gro chwipio • plastr garw • tyrolean • rendrau synthetig neu heb fod yn synthetig • gweadau silicon • gweadau crafog sment • wedi'i flendio ymlaen llaw neu wedi'i gymysgu ymlaen llaw. 	<p>Methu = 0 Pasio = 1 Rhagori = 2</p>	
Maen prawf 7d		
<p>Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol i baratoi arwynebau cefndir, cymysgu plastr a rhoi plastr soled mewnol ar o leiaf chwech o'r canlynol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir;</p> <ul style="list-style-type: none"> • onglau mewnol ac allanol ar wahân i 90° • waliau gaflog • ffenestri crwn neu fwaog • colofnau crwn neu sgwâr • pieri cysylltiedig • trawstiau • waliau neu nenfydau ar oledf • arwynebau crwm • waliau neu nenfydau delltog • dellt metel wedi'u hehangu (EML). 	<p>Methu = 0 Pasio = 1 Rhagori = 2</p>	

Maen prawf 7e		
<p>Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol i baratoi arwynebau cefndir, cymysgu rendr a rhoi gorffeniadau rendr soled allanol ar o leiaf bedwar o'r canlynol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tyrolean • gro chwipio • uniad nadd • plastr garw (harling, gro chwipio gwlyb) • crafog • gweadog • carreg ffug • addurnol. 	<p>Methu = 0 Pasio = 1 Rhagori = 2</p>	
Maen prawf 7f		
<p>Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol i osod plastrfwrdd yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddwyd; cladin ar bren a/neu fetel a gwaith maen gan ffurfio agoriadau gyda chiliau.</p>	<p>Methu = 0 Pasio = 1 Rhagori = 2</p>	
Maen prawf 7g		
<p>Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol i baratoi arwynebau, cymysgu a gosod ffyn lefelu lloriau yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir mewn perthynas â'r canlynol; ffyn lefelu tywod a sment, lefelau a/neu gwympiadau.</p>	<p>Methu = 0 Pasio = 1 Rhagori = 2</p>	
Marc cyffredinol (Uchafswm 8 marc)		

Rhaid cyflawni'r holl feini prawf canlynol	Opsionau Graddio	Marciau a Ddyfarnwyd
Maen prawf 7h		<i>Rhaid asesu ymgeiswyr yn unol â'u cynllun arsylwi</i>
Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad yng nghyswllt iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle. Rhaid i hyn gynnwys symud, trin a storio deunyddiau ac adnoddau'n ddiogel ac yn unol â gofynion y sefydliad a'r cynnyrch.	Methu = 0 Pasio = 1	
Maen prawf 7i		
Cydymffurfio â gweithdrefnau a threfniadau diogelwch y sefydliad. Rhaid i hyn gynnwys gweithdrefnau ategol sy'n ymwneud â delio â damweiniau ac argyfyngau, a defnyddio gwybodaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad.	Methu = 0 Pasio = 1	
Maen prawf 7j		
Cynllunio a chwblhau'r gwaith drwy ddilyn gweithdrefnau'r sefydliad, dehongli dogfennau a defnyddio adnoddau'n gynhyrchiol.	Methu = 0 Pasio = 1	
Maen prawf 7k		
Dangos sgiliau cyfathrebu a gweithio cynhyrchiol sy'n cyfrannu at berthynas waith dda. Rhaid i hyn gynnwys defnyddio egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth	Methu = 0 Pasio = 1	
Marc cyffredinol (Uchafswm 4 marc)		

Grid Marcio Plastro Soled – Gofynion meini prawf crefft ychwanegol ymarferol

Ychwanegwch y meini prawf a ddewiswyd i fodloni gofynion y meini prawf crefft ychwanegol at y tabl isod a chofnodi'r penderfyniadau asesu.

	Opsiynau Graddio	Marciau a Ddyfarnwyd
Maen prawf 7l		<i>Dim ond yn unol â'r cynllun arsylwi y dylid asesu ymgeiswyr</i>
	Methu = 0 Pasio = 1 Rhagori = 2	
Maen prawf 7m		
	Methu = 0 Pasio = 1 Rhagori = 2	
Maen prawf 7n		
	Methu = 0 Pasio = 1 Rhagori = 2	
Maen prawf 7o		
	Methu = 0 Pasio = 1 Rhagori = 2	

Marc cyffredinol (Uchafswm 8 marc)	
Cyfanswm y marc ymarferol (Uchafswm o 20 marc)	

Grid Marcio Plastro Soled – MAC Gwerthuso

	Opsiynau Graddio	Marciau a Ddyfarnwyd
Maen prawf 8		<i>Dim ond yn unol â'r cynllun arsylwi y dylid asesu ymgeiswyr</i>
Gwerthuso'r gwaith a gwblhawyd yn erbyn y fanyleb a'r meini prawf llwyddo – allbwn sy'n addas i'r diben, yn ddiogel ac yn unol â gofynion y fanyleb, ansawdd y gwaith. Gwerthuso'r offer a ddewiswyd	Methu = 0 Pasio = 1 Rhagori = 2	
Maen prawf 9		
Pwyso a mesur a oedd y meini prawf llwyddo a osodwyd yn briodol ac a oeddent yn helpu i gyflawni'r dasg yn llwyddiannus ac yn effeithlon.	Methu = 0 Pasio = 1 Rhagori = 2	
Maen prawf 10		
Gwerthuso eich perfformiad eich hun – cryfderau, gwendidau, meysydd i'w gwella. Ansawdd cyffredinol y gwaith (gosodiad a gorffeniad ac ati).	Methu = 0 Pasio = 1 Rhagori = 2	
Maen prawf 11		
Adolygu'r gwaith o gyflawni'r amserlenni – y rhesymau dros yr oedi os digwyddodd hynny a pha gamau y gellid bod wedi'u cymryd i atal/osgoi hyn.	Methu = 0 Pasio = 1 Rhagori = 2	

Maen prawf 12		
Gwerthuso'r trosglwyddo – ansawdd ac eglurder yr wybodaeth a ddarparwyd, cyflawni pwrpas y trosglwyddo, llwyddiant y dull cyfathrebu a ddewiswyd.	Methu = 0 Pasio = 1 Rhagori = 2	
Marc cyffredinol (Uchafswm 10 marc)		

Ar ôl cwblhau'r asesiad hwn, gwneud penderfyniadau asesu, a dyfarnu marciau, defnyddiwch y tablau a'r ffurflenni cofnodi isod i gyfrifo gradd dros dro y dysgwr ar gyfer y Prosiect Ymarferol.

Rhaid i'r asesydd ddefnyddio'r tablau hyn i gyfrifo gradd dros dro ar gyfer y dysgwr. Rhaid rhoi gwybod i'r dysgwr beth yw'r radd dros dro hon cyn pen wythnos iddo gwblhau'r asesiad, a dylid rhoi gwybod iddo mai gradd dros dro yw hi. Bydd canlyniadau dros dro yn destun sicrhau ansawdd mewnol ac allanol. Bydd canlyniadau yn cael eu cyflwyno i City and Guilds a bydd gradd derfynol yr asesiad yn cael ei chyfuno â'r dulliau asesu eraill er mwyn cael gradd gyffredinol ar gyfer y cymhwyster, a fydd yn cael ei rhoi gan City and Guilds.

Cyfrifo'r marciau

Elfen	Cynllunio	Perfformio	Adolygu
Prosiect Ymarferol	/12	/20	/10
Trothwy'r marc pasio	6	12	5
Cyfanswm Cyffredinol	/42		

Marc a Enillwyd
Gradd Dros Dro a Ddyfarnwyd

* Rhaid i ddysgwyr gyflawni marc sy'n cyrraedd y trothwy pasio **drwy ennill o leiaf 1 marc ym mhob maen prawf gofynnol** ym mhob elfen. Os bydd y dysgwr yn methu â chyflawni'r marc isaf mewn unrhyw elfen, bydd yn cael ei gyfeirio yn yr elfen honno a bydd angen ei ailasesu yn unol â'r polisi ailsefyll.

Rhaid cael cyfanswm y marciau a roddir ym mhob adran a'u cyfuno i greu marc cyffredinol ar gyfer y prosiect. Mae'r tabl isod yn dangos y radd i'w dyfarnu ar sail marc cyffredinol y dysgwr.

Penderfynu ar Radd Dros Dro

Gellir cyfrifo'r sgôr gyffredinol drwy ddefnyddio'r tabl isod.

Ffin marciau	Gradd	Pwyntiau
41 - 42	D3	7
38 - 40	D2	6
35 - 37	D1	5
32 - 34	M2	4
29 - 31	M1	3
26 - 28	P2	2
23 - 25	P1	1


Cadarnhau Gradd Dros Dro

Enw'r Dysgwr:	
Llofnod y Dysgwr:	
Enw'r Asesydd:	
Llofnod yr Asesydd:	
Dyddiad:	

2. Prosiect Ymarferol - Ffurflenni cofnodi

2.1 Ffurflenni Cynllunio Tasgau

Tasg X (Defnyddiwch y tabl hwn i greu ffurflenni cynllunio tasgau yn ôl yr angen)

Enw'r Dysgwr:			
Enw'r Asesydd:			
Beth fydd y dysgwr yn ei wneud (Tasg)			
Trosolwg o elfennau'r dasg			
Sylwer: Rhaid i'r holl waith fod yn hygyrch ac yn weladwy er mwyn gallu arsylwi arno i'w asesu. Bydd angen cwblhau unrhyw waith nad yw'n hygyrch/gweladwy eto			
Dyddiad arfaethedig yr asesiad ymarferol		Dyddiad cyflwyno ar gyfer tystiolaeth Cynllunio	
Hyd Arfaethedig		Hyd Go lawn	
Unedau a Meini Prawf i'w cynnwys			
Gofynion sylfaenol o ran cynnwys asesu (MAC) i'w cynnwys (nodwch unrhyw rai o'r MAC a gwblhawyd yn y dasg hon a restrir yn y tablau)			
Rwy'n cadarnhau bod y tasgau hyn yn cyd-fynd â gofynion a safonau'r diwydiant a byddaf yn bodloni'r gofynion sylfaenol o ran cynnwys (MAC) fel y nodir uchod:			
Llofnod yr Asesydd		Dyddiad	
Llofnod y Dysgwr		Dyddiad	
Llofnod y Cyflogwr/Goruchwyliwr		Dyddiad	

2.2 Ffurflenni Cynllunio Asesiad

Rhaid i'r asesydd gysylltu â'r dysgwr a'r cyflogwr i benderfynu pa dasgau sydd i'w hasesu yn ystod pob ymweliad asesu. Rhaid defnyddio'r ffurflen isod i gasglu'r wybodaeth hon.

Ar ben hynny, rhaid cofnodi'r uned a'r meini prawf a asesir yn ystod pob ymweliad asesu yn yr ardal a ddarperir.

Bydd yr adrannau asesu, cynllunio a gwerthuso **yn digwydd y tu allan i'r arsylwi** ac felly **nid oes angen eu cynnwys yn y tabl isod.**

Rhaid cwblhau'r cynllun hwn cyn cynnal unrhyw ymweliadau asesu.

Enw'r Dysgwr:			
Enw'r Asesydd:			
Adran 1			
Bydd Adran 1 yn cael ei defnyddio i nodi pa dasgau sy'n cael eu hasesu yn ystod pob ymweliad asesu, a'r mathau o dystiolaeth a fydd yn cael eu casglu ym mhob ymweliad – pan na fydd unrhyw faen prawf yn cael ei arsylwi'n uniongyrchol, rhaid rhoi sail resymegol glir sy'n egluro pam, a rhaid cynllunio i gasglu mathau eraill o dystiolaeth yn lle hynny. Os oes mwy na 4 tasg wedi'u cynllunio, gwnewch y tabl isod yn fwy er mwyn gallu cyfeirio at y rhain. Os oes angen mwy na 3 ymweliad asesu, ychwanegwch golofnau ychwanegol at y tabl hwn er mwyn gallu cofnodi gwybodaeth.			
Rhif y dasg	Ymweliad asesu 1	Ymweliad asesu 2	Ymweliad asesu 3
Tasg 1			
Tasg 2			
Tasg 3			
Tasg 4			
Adran 2			
Bydd Adran 2 yn cael ei defnyddio i ddangos pa feini prawf fydd yn cael eu hasesu yn ystod pob ymweliad asesu. Rhowch unrhyw feini prawf crefft ychwanegol y mae tystiolaeth ohonynt yn y grid isod a nodwch ym mha ymweliad asesu y byddant yn cael eu hasesu.			
	Nodwch yma pa ymweliad asesu a thasg fydd yn asesu pob maen prawf		Nodwch yma pa ymweliad asesu a thasg fydd yn asesu pob maen prawf
e.e. Maen prawf 7a			

2.3 Ffurflenni cofnodi asesiad

Defnyddiwch y tabl canlynol i gofnodi nodiadau pob arsylwad, nid yw'r nodiadau hyn yn cael eu marcio, ac nid ydynt chwaith yn cyfrannu at radd ond gall yr asesydd eu defnyddio i ddatblygu'r naratif a'r radd gyffredinol ar gyfer yr ymgeisydd.

Enw'r Dysgwr:	
Enw'r Asesydd:	
Nodiadau ymweliad asesu 1	
Nodiadau ymweliad asesu 2	
Nodiadau ymweliad asesu 3	

Naratif yr Asesydd

Defnyddiwch y blwch isod i roi naratif ar berfformiad y dysgwr ar draws y prosiect cyfan. Rhaid i'r naratif hwn ystyried y sgoriau a roddwyd yn ystod yr arsylwadau ond rhaid canolbwyntio ar ddarlun cyfannol o'r prosiect yn ei gyfanrwydd. Dyma fanylion y dysgwr sydd i'w cynnwys:

- Sgiliau a gallu technegol
- Gofal o offer, cyfarpar ac ardaloedd gwaith eraill
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r prosiect
- Dull gweithredu ac agwedd at y prosiect
- Sut cafodd rhwystrau eu goresgyn
- Ymwybyddiaeth amgylcheddol
- Gwersi a ddysgwyd o'r prosiect.

Rhaid i'r asesydd hefyd gynnwys cyfiawnhad dros y radd a roddir.

Enw'r Dysgwr:	
Enw'r Asesydd:	
Naratif yr Asesydd o'r Prosiect	

3. Asesiad ar-sgrin

Prawf 1 Manyleb Aseu Math o asesiad: Aml-ddewis Nifer y marciau: 45 Amser: 70 munud		
Uned	Deilliant dysgu	Nifer y marciau
301 Deall arferion adeiladu yng Nghymru	1. Gwybod am y cyrff a'r sefydliadau crefft yn y sector adeiladu	10
	2. Deall arferion cysylltiedig yn y diwydiant adeiladu	
	3. Gwybod am y newidiadau mewn pwysau a deunyddiau adeiladu dros amser	
	4. Gwybod am y newid mewn dulliau adeiladu dros amser	
	5. Deall y berthynas rhwng crefftau a'r amgylchedd	
225: Gwybodaeth Graidd am Blastro	1. Deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth	12
	2. Deall arferion gweithio diogel	
	3. Deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod	
	4. Deall gweithio i derfynau amser	
226: Cynhyrchu gorffeniadau plastro soled mewnol yn y gweithle	1. Deall y broses o ddewis adnoddau	13
	2. Deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract	
227: Gosod rendr soled ar arwynebau cefndir a chreu gorffeniadau yn y gweithle	1. Deall y broses o ddewis adnoddau	10
	2. Deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract	

Prawf 2 Manyleb Asesu Math o asesiad: Aml-ddewis Nifer y marciau: 44 Amser: 70 munud		
Uned	Deilliant dysgu	Nifer y marciau
302: Gweithio yn y sector adeiladu yng Nghymru	1. Deall yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru	5
	2. Deall sut i weithio'n effeithiol gydag eraill	
304: Cydymffurfio ag iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle	1. Deall iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle	3
	2. Deall sut mae adnabod peryglon	
	3. Deall polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad	
	4. Deall sut mae rhoi trefniadau diogelwch ar waith	
305: Cydymffurfio ag arferion gweithio cynhyrchiol	1. Deall sut i gyfathrebu ag eraill	3
	2. Deall sut mae dilyn gweithdrefnau	
	3. Deall sut mae cynnal perthynas waith dda	
306: Symud, trin neu storio adnoddau	1. Deall sut mae dehongli gwybodaeth	1
	1. Deall arferion gweithio diogel	
	3. Deall y broses o ddewis adnoddau	
	4. Deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod	
	5. Deall sut i gydymffurfio â gwybodaeth am adnoddau galwedigaethol	
	6. Deall sut i weithio i derfynau amser	
319: Gosod plastr soled ar arwynebau mewnol cymhleth yn y gweithle	1. Deall y broses o ddewis adnoddau	8
	2. Deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract	
320: Creu gorffeniadau rendr allanol cymhleth	1. Deall y broses o ddewis adnoddau	8
	2. Deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract	
321: Gosod plastrfwrdd yn fecanyddol a thrwy fond uniongyrchol	1. Deall y broses o ddewis adnoddau	8
	2. Deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract	
322: Gosod systemau ffyn lefelu lloriau	1. Deall y broses o ddewis adnoddau	8
	2. Deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract	

4. Ffurflenni Cofnodi'r Draffodaeth Broffesiynol

Dylid nodi bod rhai cwestiynau enghreifftiol wedi eu darparu – enghreifftiau yw'r rhain yn unig a rhaid i'r asesydd gynnal y draffodaeth drwy adael i'r ymgeisydd arwain a defnyddio cwestiynau sy'n adlewyrchu'r draffodaeth wrth iddi symud ymlaen.

Myfyrio ar y Prosiect Ymarferol

(Mae rhai cwestiynau enghreifftiol wedi cael eu cynnwys)

Enw'r Dysgwr:	
Enw'r Asesydd:	
<p>1 Cynllunio a Gwerthuso <i>Yr asesydd i samplu:</i></p> <p>Uned 303</p> <ul style="list-style-type: none"> 1.1 Trefnu'r adnoddau sydd eu hangen 1.2 Gosod meini prawf llwyddo ar gyfer y dasg/tasgau 1.3 Gwneud gwaith cynllunio effeithiol 1.4 Esbonio pam mai'r dull gweithredu arfaethedig yw'r un mwyaf priodol 1.5 Cydnabod goblygiadau cost a gwastraff y gwaith a sut mae'r rhain wedi cael eu hystyried 1.6 Rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwblhau'r dasg a nodi'r camau i'w cymryd i atal risgiau rhag dod yn broblemau 1.7 Nodi gofynion trosglwyddo'r gwaith 2.1 Adolygu pa mor briodol yw'r meini prawf llwyddo a osodwyd 2.2 Gwerthuso'r defnydd a'r dewis o adnoddau 2.3 Gwerthuso'r allbwn gorffenedig 2.4 Gwerthuso ei berfformiad ei hun 2.5 Adolygu cyflawni'r amserlenni 2.6 Gwerthuso'r broses drosglwyddo <p>Uned 302</p> <ul style="list-style-type: none"> 2.1 Sut i ddatblygu a chynnal perthnasoedd gwaith cynhyrchiol 2.2 Sut i gyfathrebu'n effeithiol â chleientiaid, cyflogwyr a chydweithwyr a gyda rhanddeiliaid eraill drwy gydol prosiectau amgylchedd adeiledig <p>Uned 301</p> <ul style="list-style-type: none"> 4.1 Dulliau adeiladu cyn 1919 4.2 Technegau adeiladu ar ôl 1919 ac yn y cyfnod modern 4.3 Technegau a thechnolegau adeiladu yn yr 21ain ganrif ar gyfer y grefft a ddewiswyd 	
<p><i>Cwestiynau Enghreifftiol:</i></p> <p><i>Pa adnoddau wnaethoch chi eu nodi ar gyfer cwblhau'r tasgau? Esboniwch lle cawsoch chi afael arnynt a sut wnaeth hyn effeithio ar eich dull cyffredinol o gwblhau'r tasgau.</i></p>	

Pa dechnegau wnaethoch chi eu nodi ar gyfer amcangyfrif cwblhau'r tasgau? Esboniwch pam eich bod wedi dewis y technegau hyn a sut roeddent wedi effeithio ar eich dull cyffredinol o ymdrin â'r tasgau.

Beth oedd y prif weithgareddau gwaith a oedd yn rhan o'ch cynllun gwaith? Esboniwch sut gwnaethoch amcangyfrif faint o amser sydd ei angen ar gyfer pob un o'r tasgau ymarferol.

Sut oeddech chi'n cadw ar y trywydd iawn o ran amser a chyflymder y gwaith yn eich prosiectau? Beth oedd eich amcanion/meini prawf llwyddo/cerrig milltir penodol chi? Wnaethoch chi gwrdd â nhw?

Pa dechnegau ymarferol wnaethoch chi eu defnyddio wrth gwblhau'r tasgau? Esboniwch pam eich bod wedi dewis y technegau hyn a sut roeddent wedi effeithio ar eich dull cyffredinol o ymdrin â'r tasgau.

Beth oedd y prif ddulliau cyfathrebu a ddefnyddiwyd gennych yn ystod eich prosiect a sut gwnaethoch chi eu defnyddio i gyfathrebu'n effeithiol â chleientiaid/cwsmeriaid, cyflogwyr, cydweithwyr a/neu randdeiliaid eraill?

A wnaeth eich dull weithio? Beth aeth yn dda? Beth nad oedd cystal? Beth fydddech chi'n ei wneud yn wahanol/beth fyddwch chi'n ei wneud y tro nesaf/beth wnaethoch chi ei ddysgu am eich dull?

Beth oedd y meini prawf llwyddo a osodoch i chi eich hun ar gyfer y prosiect hwn? Eglurwch i ba raddau roeddech chi wedi bodloni eich meini prawf llwyddo.

Beth oedd cryfderau a gwendidau eich Prosiectau Ymarferol? Sut wnaethoch chi oresgyn problemau?

Gyda phwy oedd eich perthynas weithio allweddol yn ystod y prosiect hwn a pha gamau wnaethoch chi eu cymryd i sicrhau eu bod yn gynhyrchiol?

Beth oedd y rhan anoddaf o'r gwaith gosod i chi? Pa broblemau a gododd? Sut gwnaethoch chi ddelio â nhw? Pa welliannau fyddwch chi'n eu gwneud y tro nesaf?

Beth oedd y tasgau allweddol roeddech chi'n eu cyflawni yn eich prosiect? Sut byddech chi wedi cwblhau'r rhain mewn adeilad o gyfnod gwahanol?

Sut ydych chi wedi gwella eich gwaith yn y prosiectau? (Beth oedd y pethau sydd wedi gwella; sut wnaethon nhw wella)

Sut byddech chi wedi newid eich dull gweithredu ar gyfer y dasg/tasgau pe bai gennych chi amrywiaeth o offer ar gael o gyfnod gwahanol mewn amser?

Adborth o'r asesiad:

I gyflawni'r asesiad hwn, mae'n rhaid i ddysgwyr basio 1 marc ar gyfer pob disgrifiad.

Llofnod yr Asesydd: _____

Dyddiad: _____

Llofnod y Dysgwr: _____

Dyddiad: _____

Lleoliad: _____

Amser Dechrau: _____

Hyd (Munudau): _____